

Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Gâr

Gweithredu o ran y Gymraeg – 2015/16

Annwyl Gomisiynydd,

Cyflwynaf ar eich cyfer Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Gâr ar gyfer 2015/16. Yn naturiol, mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar y gwaith o baratoi tuag at gyflwyno'r Safonau Iaith o fewn y cyngor. Rydym wedi paratoi cynllun gweithredu manwl ar gyfer y cyfnod cychwynnol yma, a dyma fydd sail ein hadroddiad am eleni. Yn ogystal, ceir nifer o atodiadau sy'n ychwanegu'r manylder o ran y meysydd a ganlyn:

Atodiad 1: Adroddiad cryno ar argymhellion adroddiad 'Y Gymraeg yn Sir Gâr' (tud. 67)

Atodiad 2: Cynllun cyfathrebu ac enghreifftiau o ohebiaeth (tud.76)

Atodiad 3: Cwynion a dderbyniwyd (tud.81)

Atodiad 4: Hyfforddiant a ddarparwyd (tud.84)

Atodiad 5: Canlyniadau'r awdit sgiliau iaith i staff (tud.85)

Atodiad 6: Canllawiau a baratowyd i staff

Rydym yn cydnabod bod gwaith i'w wneud yng nghyd-destun y Safonau ac wrth i ni symud ymlaen gydag argymhellion yr adroddiad 'Y Gymraeg yn Sir Gâr'. Wrth wneud y gwaith cynllunio, rydym wedi ceisio sicrhau ein bod yn plethu'r argymhellion hynny gyda'r Safonau, gan lunio un ddogfen sy'n arwain y gweithredu. Byddwn yn cynnwys y pwyntiau gweithredu o'r Polisi Defnydd Mewnol a'r Strategaeth Hybu o fewn yr un cynllun er mwyn hwyluso monitro cynnydd a chydymffurfiaeth. Er hynny, erys rhai pwyntiau gweithredu penodol o adroddiad 'Y Gymraeg yn Sir Gâr' fel atodiad 1.

Mae'r Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn ddogfen allweddol wrth i ni ddarparu gwasanaeth a fydd yn sicrhau cyfleoedd dysgu o ansawdd uchel i'r holl blant, pobl ifanc ac oedolion, a thrwy hynny'n eu galluogi i gyflawni eu llawn botensial yng nghyd-destun natur ddwyieithog unigryw'r sir. I'r perwyl hynny, mae gan y Fforwm Strategol y Gymraeg mewn Addysg rôl allweddol wrth fonitro cynnydd yn yr argymhellion a drosglwyddwyd o adroddiad 'Y Gymraeg yn Sir Gâr' i'r Cynllun Strategol. Mae'r Panel Ymgynghorol hefyd yn derbyn diweddariadau rheolaidd gan swyddogion o'r Adran Addysg a Phlant.

Mae'r cyfnod paratoi wedi bod yn un prysur, ac fe welwch o'r cynllun cyfathrebu yn Atodiad 2 fod cryn waith wedi ei wneud i godi ymwybyddiaeth o'r newid ymhlith staff. Yn sgil hyn, derbyniwyd

nifer o ymholiadau gweithredol gan adrannau'r cyngor, a bu'n gyfle da i edrych ar ein sefyllfa gyfredol o ran cydymffurfiaeth gan osod blaenoriaethau at y dyfodol. Cyflwynwn enghreifftiau o'r negeseuon corfforaethol fel tystiolaeth.

Yn atodiadau 3, 4 a 5 ceir y wybodaeth fanwl ynghylch cwynion, hyfforddiant a'r awdit sgiliau laith i staff. Cynhaliwyd yr awdit sgiliau laith gyda staff sydd â chyswllt swyddfa yn gyntaf, yna fe fu adrannau'r cyngor yn cydweithio ag Adnoddau Dynol er mwyn casglu data gan ein staff sydd heb gyswllt rheolaidd â chyfrifiadur. Fe fydd canlyniadau'r awdit yn sail ar gyfer cynllunio ein darpariaeth Cymraeg yn y Gweithle at y dyfodol.

Mae'r Panel Ymgynghorol Aelodau ar y Gymraeg wedi derbyn diweddariadau cyson o ran y Safonau ac maent yn blatfform da o ran ymgynghori ar ddatblygiadau mewnol. Mae gan y Panel hefyd rôl allweddol wrth fonitro cynnydd a galw am dystiolaeth o'r cynnydd hynny gan adrannau penodol o fewn y cyngor. Edrychwn ymlaen at y cyfnod nesaf o weithredu.

Wrth i ni drafod yr Hysbysiadau Cydymffurfio drafft, fe ddaeth hi'n amlwg nad oedd y sefyllfa gyfredol o fewn yr Uned Gyfieithu yn mynd i fod yn ddigonol wrth sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau. I'r perwyl hynny, bu buddsoddiad o £200,000 ychwanegol yng nghyllideb yr Uned, er mwyn penodi mwy o staff a buddsoddi mewn systemau modern a fydd yn cefnogi'r gwaith. Mae gan yr Uned rôl allweddol i chwarae wrth hwyluso'r Safonau ac wrth gefnogi adrannau i gynyddu defnydd o'r Gymraeg yn ein gweithle. Edrychaf ymlaen at adrodd ar nifer o ddatblygiadau newydd yn adroddiad 2016/17.

Mawr obeithiaf fod yr Adroddiad yn dystiolaeth o ymrwymiad y cyngor i wireddu'r Safonau. Rhydd groeso i chi gysylltu â ni os oes gennych unrhyw ymholiadau yn sgil derbyn yr adroddiad.

Cofion,

Cynghorydd Mair Stephens

Aelod Portffolio dros y Gymraeg

Bwrdd Gweithredol Cyngor Sir Gâr

Cynllun Gweithredu Safonau'r Iaith Gymraeg Cyngor Sir Gâr 2015-16

Yn unol a HYSBYSIAD CYDYMFFURFIO – ADRAN 44 MESUR Y GYMRAEG (CYMRU) 2011 Cyngor Sir Gâr – Dyddiad Dyroddi: 30/09/2015

Safonau y bydd yn ofynnol i gydymffurfio â hwy o fewn 6 mis (Dyddiad Gosod: 30 Mawrth 2016)

Dosbarth o Safon: Cyflenwi Gwasanaethau

Rhif Safon a (rhif argymhelliad)	Safon	Camau Gweithredu	Amserlen a thystiolaeth
1	Os byddwch yn cael unrhyw ohebiaeth yn Gymraeg oddi wrth berson, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb), oni bai bod y person wedi dweud nad oes angen ateb yn Gymraeg.	<ul style="list-style-type: none"> • Creu taflen Canllawiau Gohebu i staff yn cynnwys Canllawiau Cyfieithu • Cyhoeddi'r daflen ar fewnrwyd y Cyngor. • Rhoadru'r wybodaeth i staff • Creu Cynllun Cyfathrebu gyda'r Rheolwr Cyfathrebu (5 Chwefror 2016) 	✓ Atodiad 2 – Cynllun Cyfathrebu
4	Pan fyddwch yn anfon yr un ohebiaeth at nifer o bersonau, rhaid ichi anfon fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth ar yr un pryd ag y	Gweler uchod	✓

	byddwch yn anfon unrhyw fersiwn Saesneg ohoni.		
5	Os nad ydych yn gwybod a yw person yn dymuno cael gohebiaeth oddi wrthyich yn Gymraeg rhaid ichi ddarparu fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth pan fyddwch yn gohebu â'r person hwnnw.	Gweler uchod	✓
6	Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg gyfatebol o ohebiaeth, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg (er enghraifft, os yw'r fersiwn Saesneg wedi ei llofnodi, neu os oes manylion cyswllt wedi eu darparu ar y fersiwn Saesneg, rhaid i'r fersiwn Gymraeg gael ei thrin yn yr un modd).	Gweler uchod	✓
7	Rhaid ichi ddatgan - (a) mewn gohebiaeth, a (b) mewn cyhoeddiadau a hysbysiadau swyddogol sy'n gwahodd personau i anfon ymateb neu i anfon gohebiaeth atoch, eich bod yn croesawu cael gohebiaeth yn Gymraeg, y byddwch yn ateb gohebiaeth yn Gymraeg, ac na fydd	<ul style="list-style-type: none"> • Darparu geiriad ar gyfer pob adran. • Cynnwys y geiriad yn nhaflen canllawiau Gohebu • Drafftio taflen canllawiau cyhoeddi • Cychwyn ar y gwaith o gomisiynu diweddariad i'r e-fodiwl ymwybyddiaeth Iaith 	✓

	gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.		
8	Pan fydd person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi gyfarch y person yn Gymraeg.	<ul style="list-style-type: none"> • Creu taflen Canllawiau Ateb Ffôn • Cyhoeddi'r taflenni ar fewnrwyd y Cyngor. • Rhaeadru'r wybodaeth i Pennaeth Eiddo Corfforaethol , ac i Reolwyr a Phenaethiaid o fewn Gwasanaethau Corfforaethol, sef marchnadoedd, unedau diwydiannol, eiddo ar werth, a'r Polisi Trosglwyddo Asedau Cymunedol • Rhaeadru'r wybodaeth i staff <ul style="list-style-type: none"> ○ Canolfan Alwadau, ○ Tai, ○ Cyllid a Budd-daliadau, ○ Llinell Ofal / Care Line, 	<p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p>
9	Pan fydd person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi roi gwybod i'r person bod gwasanaeth Cymraeg ar gael.	Gweler uchod	✓

<p>10</p>	<p>Pan fo person yn cysylltu â chi ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), neu ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi ddelio â'r alwad yn Gymraeg yn ei chyfanrwydd os yw'r person yn dymuno hynny (gan drosglwyddo'r alwad i aelod o staff sy'n gallu delio â'r alwad yn Gymraeg os yw hynny'n angenrheidiol).</p>	<p>Gweler Uchod</p>	<p>✓</p>
<p>12</p>	<p>Pan fyddwch yn hysbysebu rhifau ffôn, llinellau cymorth neu wasanaethau canolfannau galwadau, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>	<p>Dim angen gweithredu</p>	
<p>13</p>	<p>Os byddwch yn cynnig gwasanaeth Cymraeg ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid i rif ffôn y gwasanaeth Cymraeg fod yr un peth â rhif ffôn y gwasanaeth Saesneg cyfatebol.</p>	<p>Dim angen gweithredu</p>	

14	Pan fyddwch yn cyhoeddi eich prif rif ffôn, neu unrhyw rifau sydd gennych ar gyfer llinellau cymorth neu wasanaethau canolfannau galwadau, rhaid ichi nodi (yn Gymraeg) eich bod yn croesawu galwadau yn Gymraeg.	Drafftio taflen Canllawiau Cyhoeddi	
15	Os oes gennych ddangosyddion perfformiad ar gyfer delio â galwadau ffôn, rhaid ichi sicrhau nad yw'r dangosyddion perfformiad hynny yn trin galwadau ffôn a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na galwadau a wneir yn Saesneg.	Tîm Polisi i siarad â Phennaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid am safon 15	✓
16	Rhaid i'ch prif wasanaeth (neu wasanaethau) ateb galwadau ffôn roi gwybod i bersonau sy'n galw, yn Gymraeg, fod modd gadael neges yn Gymraeg.	Cynnwys yn y Canllawiau Ateb Ffôn	✓

17	Pan na fo gwasanaeth Cymraeg ar gael ar eich prif rif ffôn (neu ar un o'ch prif rifau ffôn), ar unrhyw rifau llinell gymorth neu rifau canolfan alwadau, rhaid ichi roi gwybod i'r personau sy'n galw (pa un ai drwy gyfrwng neges wedi ei hawtomeiddio neu fel arall) pryd y bydd gwasanaeth Cymraeg ar gael.	Dim angen gweithredu	
18	Os bydd person yn cysylltu ag un o'ch adrannau ar rif ffôn llinell uniongyrchol (gan gynnwys ar rifau llinell uniongyrchol aelodau staff), a bod y person hwnnw'n dymuno cael gwasanaeth Cymraeg, rhaid ichi ddarparu'r gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg yn ei gyfanwydd (os yw'n angenrheidiol drwy drosglwyddo'r alwad i aelod o staff sy'n gallu delio â'r alwad yn Gymraeg).	<ul style="list-style-type: none"> • Creu taflen Canllawiau Ateb Ffôn • Cyhoeddi'r taflenni ar fewnrwyd y Cyngor. • Rhaedru'r wybodaeth i staff 	✓
20	Pan fydd person yn cysylltu â chi ar rif llinell uniongyrchol (pa un ai ar rif llinell uniongyrchol adran neu ar rif llinell uniongyrchol aelod o staff), rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth	Gweler uchod	✓

	gyfarch y person.		
21	Pan fyddwch yn ffonio unigolyn ("A") am y tro cyntaf, rhaid ichi ofyn i A a yw'n dymuno cael galwadau ffôn oddi wrthyh yn Gymraeg; ac os yw A yn ymateb i ddweud ei fod yn dymuno hynny, rhaid ichi gadw cofnod o'i ddymuniad, a chynnal galwadau ffôn a wneir i A o hynny ymlaen yn Gymraeg.	Gweler uchod	✓
22	Rhaid i unrhyw system ffôn wedi ei hawtomeiddio sydd gennych ddarparu'r gwasanaeth cyfan wedi ei awtomeiddio yn Gymraeg.	Gweler uchod	✓
24	Os byddwch yn gwahodd un person ("P") yn unig i gyfarfod, rhaid ichi ofyn i P a fyddai'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a hysbysu P y byddwch, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw.	<ul style="list-style-type: none"> • Creu taflen Canllawiau Trefnu a Chynnal Cyfarfodydd • Cyhoeddi'r daflen ar fewnrwyd y Cyngor 	✓

24A	Os byddwch wedi gwahodd un person ("P") yn unig i gyfarfod, a bod P wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu).	Gweler uchod	✓
26	Os byddwch yn gwahodd unigolyn ("A") i gyfarfod, a bod y cyfarfod yn ymwneud â llesiant A, rhaid ichi ofyn i A a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a hysbysu A y byddwch, os oes angen, yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg at y diben hwnnw.	Creu taflen Canllawiau Trefnu a Chynnal Cyfarfod	✓

<p>26A</p>	<p>Rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ac o'r Saesneg i'r Gymraeg ar gael mewn cyfarfod-</p> <p>(a) os yw'r cyfarfod yn ymwneud â llesiant unigolyn ("A") a wahoddwyd, a</p> <p>(b) os yw A wedi eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod; os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb gymorth gwasanaeth cyfieithu.</p>	<p>Creu taflen Canllawiau Trefnu a Chynnal Cyfarfod</p>	<p>✓</p>
<p>27</p>	<p>Os byddwch yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod (nad yw'n ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddir), rhaid ichi ofyn i bob person a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.</p>	<p>Creu taflen Canllawiau Trefnu a Chynnal Cyfarfod</p>	<p>✓</p>
<p>27A</p>	<p>Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod (nad yw'n ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddir), a bod o leiaf 10% (ond llai na</p>	<p>Creu taflen Canllawiau Trefnu a Chynnal Cyfarfod</p>	<p>✓</p>

	100%) o'r gwahoddedigion wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi drefnu bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod.		
27CH	Os byddwch wedi gwahodd mwy nag un person i gyfarfod (nad yw'n ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddir), a bod pawb a gafodd wahoddiad wedi eich hysbysu eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, rhaid ichi gynnal y cyfarfod yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol).	Dilyn gweithdrefn herio ac apelio	
28	Os byddwch yn gwahodd mwy nag un person i gyfarfod, a bod y cyfarfod hwnnw yn ymwneud â llesiant un neu ragor o'r unigolion a wahoddwyd, rhaid ichi - (a) gofyn i'r unigolyn hwnnw neu i bob un o'r unigolion hynny a yw'n dymuno i'r cyfarfod gael	Dilyn gweithdrefn herio ac apelio	

	ei gynnal yn Gymraeg, a (b) os yw'r unigolyn hwnnw, neu os yw pob un o'r unigolion hynny, yn eich hysbysu ei fod yn dymuno i'r cyfarfod gael ei gynnal yn Gymraeg, cynnal y cyfarfod hwnnw yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol).		
30	Os byddwch yn trefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd rhaid ichi ddatgan ar unrhyw ddeunydd sy'n ei hysbysebu, ac ar unrhyw wahoddiad iddo, fod croeso i unrhyw un sy'n bresennol ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.	Creu taflen Canllawiau Trefnu a Chynnal Cyfarfod	✓
31	Pan fyddwch yn anfon gwahoddiadau i gyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd rhaid ichi eu hanfon yn Gymraeg.	Creu taflen Canllawiau Trefnu a Chynnal Cyfarfod	✓
32	Os byddwch yn gwahodd personau i siarad mewn cyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd rhaid ichi - (a) gofyn i bob person a	Creu taflen Canllawiau Trefnu a Chynnal Cyfarfod	✓

	<p>wahoddir i siarad a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(b) os yw'r person hwnnw (neu o leiaf un o'r personau hynny) yn eich hysbysu ei fod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).</p>		
33	<p>Os byddwch yn trefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod, a rhaid ichi hysbysu'r rheini sy'n bresennol ar lafar yn Gymraeg -</p> <p>(a) bod croeso iddynt ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(b) bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael.</p>	Creu taflen Canllawiau Trefnu a Chynnal Cyfarfod	✓
34	<p>Os byddwch yn arddangos unrhyw ddeunydd ysgrifenedig mewn cyfarfod yr ydych yn ei drefnu sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi sicrhau bod y deunydd hwnnw'n cael ei arddangos yn Gymraeg, a</p>	Creu taflen Canllawiau Trefnu a Chynnal Cyfarfod	✓

	rhaid ichi beidio â thrin unrhyw destun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.		
35	Os byddwch yn trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu'n ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus, rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg wrth hybu'r digwyddiad (er enghraifft, o ran y ffordd y mae'r digwyddiad yn cael ei hysbysebu neu y rhoddir cyhoeddusrwydd i'r digwyddiad).	<ul style="list-style-type: none"> • Creu taflen Canllawiau cynnal digwyddiadau cyhoeddus • Rhoi gwybod i'r Adran Dwristiaeth • Rhoi gwybod i'r Adran Hamdden 	✓
36	Os byddwch yn trefnu digwyddiad cyhoeddus, neu'n ariannu o leiaf 50% o ddigwyddiad cyhoeddus, rhaid ichi sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg yn y digwyddiad (er enghraifft, mewn perthynas â gwasanaethau a gynigir i bersonau sy'n bresennol yn y digwyddiad, mewn perthynas ag arwyddion a arddangosir yn y digwyddiad, ac mewn perthynas â chyhoeddiadau sain a wneir ynddo).	Gweler uchod	

37	Rhaid i unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd neu ddeunydd hysbysebu yr ydych yn ei lunio gael ei lunio yn Gymraeg, ac os byddwch yn llunio'r deunydd hysbysebu yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.	Drafftio Taflen Canllaw Dylunio a chyhoeddi	✓
38	Rhaid i unrhyw ddeunydd yr ydych yn ei arddangos yn gyhoeddus gael ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o'r deunydd yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.	Creu taflen Canllawiau cynnal digwyddiadau cyhoeddus	✓

<p>41</p>	<p>Os byddwch yn llunio'r dogfennau a ganlyn rhaid ichi eu llunio yn Gymraeg -</p> <p>(a) agendâu, cofnodion a phapurau eraill sydd ar gael i'r cyhoedd, sy'n ymwneud â chyfarfod o fwrdd rheoli neu gabinet;</p> <p>(b) agendâu, cofnodion a phapurau eraill ar gyfer cyfarfodydd, cynadleddau neu seminarau sy'n agored i'r cyhoedd.</p> <p>Rhaid cydymffurfio â safon 41 (a) ymhob amgylchiad, ac eithrio:</p> <p><input type="checkbox"/> papurau eraill sydd ar gael i'r cyhoedd yn ymwneud â chyfarfod o fwrdd rheoli neu gabinet.</p> <p>Rhaid cydymffurfio â safon 41 (b) ymhob amgylchiad, ac eithrio:</p> <p><input type="checkbox"/> papurau eraill ar gyfer cyfarfodydd sy'n agored i'r cyhoedd.</p>	<p>Creu taflen Canllawiau Trefnu a Chynnal Cyfarfod</p>	<p>✓</p>
------------------	--	---	----------

42	Rhaid i unrhyw drwydded neu dystysgrif yr ydych yn ei llunio gael ei llunio yn Gymraeg.	Drafftio taflen Canllaw Dylunio a Chyhoeddi	✓
43	Rhaid i unrhyw lyfryn, taflen, pamffled neu gerdyn yr ydych yn ei lunio neu ei llunio er mwyn darparu gwybodaeth i'r cyhoedd gael ei lunio neu ei llunio yn Gymraeg.	Cynnwys yn y Canllaw Dylunio a chyhoeddi	✓
44	Os byddwch yn llunio'r dogfennau a ganlyn, a'u bod ar gael i'r cyhoedd, rhaid ichi eu llunio yn Gymraeg - (a) polisïau, strategaethau, adroddiadau blynyddol a chynlluniau corfforaethol; (b) canllawiau a chodau ymarfer; (c) papurau ymgynghori.	<ul style="list-style-type: none"> • Cynnwys yn y Canllaw Dylunio a Chyhoeddi • Trafod gyda'r Swyddog Cyfranogiad ac Ymgynghori 	✓
45	Rhaid i unrhyw reolau yr ydych yn eu cyhoeddi sy'n gymwys i'r cyhoedd gael eu cyhoeddi yn Gymraeg.	Cynnwys yn y canllaw Dylunio a Chyhoeddi	✓
46	Pan fyddwch yn rhyddhau unrhyw ddatganiad i'r wasg, rhaid ichi ei ryddhau yn Gymraeg, ac os oes fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ddatganiad, rhaid ichi ryddhau'r ddwy fersiwn ar yr un	Yn dilyn cyhoeddi'r strwythur staffio newydd, sicrhau bod y Rheolwr yn ymwybodol o'r Safon.	✓

	pryd.		
47	Os byddwch yn llunio dogfen at ddefnydd y cyhoedd, a phan nad oes safon arall wedi ei gwneud yn ofynnol ichi ei llunio yn Gymraeg, rhaid ichi ei llunio yn Gymraeg - (a) os yw pwnc y ddogfen yn awgrymu y dylid ei llunio yn Gymraeg, neu (b) os yw'r gynulleidfa a ragwelir, a'u disgwyliadau, yn awgrymu y dylid llunio'r ddogfen yn Gymraeg.	Drafftio taflen Canllaw Dylunio a Chyhoeddi	✓
48	Os byddwch yn llunio dogfen yn Gymraeg ac yn Saesneg (pa un ai ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio), rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg.	Fel uchod	✓
49	Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ddogfen ar wahân, rhaid ichi sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ddogfen hefyd ar gael yn Gymraeg.	<ul style="list-style-type: none"> • Cynnwys yn y taflen Canllaw Dylunio a Chyhoeddi • Cynnwys geiriad i staff yn y Canllaw Dylunio a Chyhoeddi • Darparu geiriad i staff yn y Canllaw Gohebu. 	✓

50	Rhaid i unrhyw ffurflen yr ydych yn ei llunio at ddefnydd y cyhoedd gael ei llunio yn Gymraeg.	Cynnwys yn y daflen Canllaw Dylunio a Chyhoeddi	✓
50A	Os byddwch yn llunio fersiwn Gymraeg a fersiwn Saesneg o ffurflen ar wahân, rhaid ichi sicrhau bod y fersiwn Saesneg yn datgan yn glir bod y ffurflen hefyd ar gael yn Gymraeg.	Cynnwys yn y Canllaw Dylunio a Chyhoeddi	✓
50B	Os byddwch yn llunio ffurflen yn Gymraeg ac yn Saesneg (pa un ai ydynt yn fersiynau ar wahân ai peidio), rhaid ichi sicrhau nad yw'r fersiwn Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r fersiwn Saesneg, a rhaid ichi beidio â gwahaniaethu rhyngddynt o ran unrhyw ofynion sy'n berthnasol i'r ffurflen (er enghraifft mewn perthynas ag unrhyw ddyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r ffurflen neu mewn perthynas â'r amser a ganiateir ar gyfer ymateb i gynnwys y ffurflen).	Cynnwys yn y Canllaw Dylunio a Chyhoeddi	✓

51	Os byddwch yn mewnosod gwybodaeth ar fersiwn Gymraeg o ffurflen (er enghraifft, cyn ei hanfon at aelod o'r cyhoedd er mwyn iddo wirio'r cynnwys neu er mwyn iddo lenwi gweddill y ffurflen), rhaid ichi sicrhau bod yr wybodaeth yr ydych yn ei mewnosod yn cael ei mewnosod yn Gymraeg.	Cynnwys yn y canllaw Dylunio a Chyhoeddi	✓
52	Rhaid ichi sicrhau - (a) bod testun pob tudalen ar eich gwefan ar gael yn Gymraeg, (b) bod pob tudalen Gymraeg ar eich gwefan yn gweithredu'n llawn, ac (c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg ar eich gwefan.	<ul style="list-style-type: none"> • Ffeindio mas pa adrannau sydd â gwefannau unigol • Cyfathrebu'r Safon gyda nhw • Trafod gyda'r Adran Gyfathrebu 	✓
55	Os oes gennych dudalen Gymraeg ar eich gwefan sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid ichi nodi'n glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a darparu dolen uniongyrchol at y dudalen Gymraeg ar y dudalen	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfathrebu'r safonau 52-59 gyda'r adrannau unigol • Sicrhau bod y wefan a'i diweddariadau'n Gymraeg • Drafftio taflen Canllaw Technoleg a'r Gymraeg 	✓ ✓ ✓

	Saesneg gyfatebol.		
56	Rhaid ichi ddarparu'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar bob tudalen ar eich gwefan yn Gymraeg.	Drafftio taflen Canllaw Technoleg a'r Gymraeg	✓
57	Rhaid i bob ap yr ydych yn ei gyhoeddi weithredu'n llawn yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran yr ap hwnnw.	Fel uchod	✓
58	Pan fyddwch yn defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	<ul style="list-style-type: none"> • Fel uchod • Darparu'r Safonau 57 a 58 i'r Adran Gyfathrebu i gynnwys yn y polisi 'defnyddio'r Cyfryngau Cymdeithasol' 	✓
59	Os bydd person yn cysylltu â chi drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn Gymraeg, rhaid ichi ateb yn Gymraeg (os oes angen ateb).	Drafftio taflen Canllaw Technoleg a'r Gymraeg	✓
60	Rhaid ichi sicrhau bod unrhyw beiriannau hunanwasanaeth sydd gennych yn gweithio'n llawn yn Gymraeg, a rhaid peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn		

	perthynas â'r peiriant hwnnw.		
61	Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro) rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd gael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd sy'n arddangos y testun cyfatebol yn Saesneg neu ar arwydd ar wahân); ac os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.	Drafftio taflen Canllaw Dylunio a Chyhoeddi	✓
62	Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd (gan gynnwys arwyddion dros dro), a bod yr arwydd hwnnw'n cyfleu yr un wybodaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.	<ul style="list-style-type: none"> • Cysylltu gyda'r Adran Eiddo Corfforaethol, Cynnal Eiddo, Priffyrdd a Cludiant i gyfathrebu'r Safon • Cynnwys yn y Canllaw Dylunio a Chyhoeddi 	✓

63	Rhaid ichi sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion yn gywir o ran ystyr a mynegiant.	Cynnwys yn y Canllaw Dylunio a Chyhoeddi	✓
64	Rhaid i unrhyw wasanaeth derbynfa yr ydych yn ei roi ar gael yn Saesneg hefyd fod ar gael yn Gymraeg, a rhaid i unrhyw berson sydd am gael gwasanaeth derbynfa Cymraeg beidio â chael ei drin yn llai ffafriol na pherson sydd am gael gwasanaeth derbynfa Saesneg.	Cyfathrebu'r Safon gyda Phennaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid	✓
67	Rhaid ichi arddangos arwydd yn eich derbynfa sy'n datgan (yn Gymraeg) fod croeso i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg yn y dderbynfa.	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfathrebu'r Safon gyda Phennaeth Gwasanaethau Cwsmeriaid • Dosbarthu Lanyards a phosteri iaith gwaith i Spilman, Neuadd y Sir 	✓
68	Rhaid ichi sicrhau bod staff yn y dderbynfa sy'n gallu darparu gwasanaeth derbynfa Cymraeg yn gwisgo bathodyn sy'n cyfleu hynny.	<ul style="list-style-type: none"> • Tîm Polisi i gyfathrebu gyda'r Rheolwr Gwasanaethau Cwsmeriaid • Gweler uchod 	✓

69	Rhaid i unrhyw hysbysiad swyddogol yr ydych yn ei gyhoeddi neu ei arddangos gael ei gyhoeddi neu ei arddangos yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin unrhyw fersiwn Gymraeg o'r hysbysiad yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohono.	<ul style="list-style-type: none"> • Cynnwys yn y Canllaw Dylunio a chyhoeddi • Gweler 61 	✓
70	Pan fyddwch yn cyhoeddi neu'n arddangos hysbysiad swyddogol sy'n cynnwys y testun Cymraeg yn ogystal â'r testun Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.	Cynnwys yn y canllaw Dylunio a Chyhoeddi	✓
71	Rhaid i unrhyw ddogfennau yr ydych yn eu cyhoeddi sy'n ymwneud â cheisiadau am grant gael eu cyhoeddi yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin fersiwn Gymraeg o'r dogfennau hynny yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohonynt.	<ul style="list-style-type: none"> • Adnabod yr adrannau sy'n gweinyddu grantiau WVEC, Twristiaeth ayb gan gofio am safon 94 • Rheadru Safonau 71-6 i Gadeiryddion y Gweithgorau prosiect (Addysg a Gwasanaethau Plant, Gwasanaethau Cymunedol, Amgylchedd, Prif weithredwr) • Cyfathrebu'r Safonau 71-80 gyda'r adrannau. 	✓ ✓

72	Pan fyddwch yn gwahodd ceisiadau am grant, rhaid ichi ddatgan yn y gwahoddiad y caniateir i geisiadau gael eu cyflwyno yn Gymraeg ac na fydd unrhyw gais a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfathrebu'r Safonau 71-80 gyda'r adrannau. • Gweler uchod 	✓
72A	Rhaid ichi beidio â thrin ceisiadau am grant a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na cheisiadau a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer cael ceisiadau, ac mewn perthynas ag amseriad rhoi gwybod i ymgeiswyr am benderfyniadau).	Gweler uchod	
73	Os byddwch yn cael cais am grant yn Gymraeg, a bod angen cyf- weld ag ymgeisydd fel rhan o'ch asesiad o'r cais, rhaid ichi gynnig cynnal y cyfweliad yn Gymraeg ac, os yw'r ymgeisydd yn dymuno hynny, rhaid ichi gynnal y cyfweliad yn Gymraeg (heb gymorth gwasanaeth cyfieithu	Gweler uchod	

	ar y pryd na gwasanaeth cyfieithu olynol).		
75	Pan fyddwch yn rhoi gwybod i ymgeisydd beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chais am grant, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os cyflwynwyd y cais yn Gymraeg.	Gweler uchod	
77	Pan fyddwch yn cyhoeddi gwahoddiadau i dendro am gontract, rhaid ichi ddatgan yn y gwahoddiad y caniateir i dendrau gael eu cyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg.	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfathrebu'r Safon 77 – 80 gyda'r Adran Gaffael • Darparu geiriad i'r Adran Gaffael i roi yn y 'Instruction to tenderers' yn crynhoi'r Safonau • Diweddarau Polisi'r Iaith Gymraeg yn nogfennau tendro'r adran gaffael 	<p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p>
77A	Rhaid ichi beidio â thrin tendr a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, mewn perthynas â'r dyddiad cau ar gyfer cael tendrau, ac mewn perthynas ag amseriad rhoi gwybod i dendrwy am benderfyniadau).	Cyfathrebu'r Safon 77 – 80 gyda'r Adran Gaffael	

79	<p>Os byddwch yn cael tendr yn Gymraeg, a bod angen cyfweld â thendrwr fel rhan o'ch asesiad o'r tendr rhaid ichi -</p> <p>(a) cynnig darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg fel bod modd i'r tendrwr ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad, a</p> <p>(b) os yw'r tendrwr yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad, darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd at y diben hwnnw (os nad ydych yn cynnal y cyfweiliad yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).</p>	Gweler uchod	
80	<p>Pan fyddwch yn rhoi gwybod i dendrwr beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â thendr, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os cyflwynwyd y tendr yn Gymraeg.</p>	Gweler uchod	
81	<p>Rhaid ichi hybu unrhyw wasanaeth Cymraeg a ddarperir gennych, a hysbysebu'r gwasanaeth hwnnw yn Gymraeg.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Parhau i adnabod cyfleoedd ar y cyd gyda'r Uned Farchnata sut i hyrwyddo gwasanaeth Cymraeg y Cyngor yn ystod y flwyddyn, e.e. Radio Sir Gâr, gwefannau'r Cyngor, 	Atodiad 2 Cynllun Cyfathrebu

		<ul style="list-style-type: none"> Newyddion Sir Gar 	✓
82	<p>Os byddwch yn darparu gwasanaeth yn Gymraeg sy'n cyfateb i wasanaeth yr ydych yn ei ddarparu yn Saesneg, rhaid i unrhyw gyhoeddusrwydd neu ddogfen yr ydych yn ei llunio, neu wefan yr ydych yn ei chyhoeddi, sy'n cyfeirio at y gwasanaeth Saesneg nodi bod gwasanaeth cyfatebol ar gael yn Gymraeg.</p>	Creu taflen Canllawiau Dylunio a Chyhoeddi	
83	<p>Pan fyddwch yn llunio, yn diwygio neu'n cyflwyno eich hunaniaeth gorfforaethol, rhaid ichi beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>		

<p>84 (45)</p>	<p>Os byddwch yn cynnig cwrs addysg sy'n agored i'r cyhoedd, rhaid ichi ei gynnig yn Gymraeg.</p> <p>Rhaid cydymffurfio â safon 84 ymhob amgylchiad, ac eithrio:</p> <p>0 pan fo asesiad a gynhaliwyd yn unol â safon 86 yn dod i'r casgliad nad oes angen i'r cwrs hwnnw gael ei gynnig yn Gymraeg.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfarfod gyda thîm Arwain yr Adran Addysg i gyfathrebu'r Safonau • Mynychu cyfarfod DMT Tîm Rheoli Adrannol Addysg ar yr 20fed o Ionawr 	<p>✓</p> <p>✓</p>
<p>86</p>	<p>Os byddwch yn datblygu cwrs addysg sydd i'w gynnig i'r cyhoedd, rhaid ichi asesu'r angen i'r cwrs hwnnw gael ei gynnig yn Gymraeg; a rhaid ichi sicrhau bod yr asesiad wedi ei gyhoeddi ar eich gwefan.</p>	<p>Gweler 84.</p>	
<p>87</p>	<p>Pan fyddwch yn cyhoeddi neges dros system annerch gyhoeddus, rhaid ichi wneud y cyhoeddiad hwnnw yn Gymraeg, ac os yw'r cyhoeddiad yn cael ei wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid</p>	<p>Gweler 67</p>	

	i'r cyhoeddiad gael ei wneud yn Gymraeg yn gyntaf.		
155	Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael - (a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	Trafod gyda'r Adran Gyfathrebu ble i gynnwys dogfen y Safonau ar wefan y Cyngor.	✓
156	Rhaid ichi - (a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n delio â'r materion a ganlyn - (i) sut yr ydych yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfedd â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a (ii) sut y byddwch yn darparu hyfforddiant i'ch staff ynglŷn â delio â'r cwynion hynny, (b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich gwefan, ac	Trafod yn fewnol adolygu camau'r gweithdrefn gwyno i sicrhau atebolrwydd	✓

	(c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.		
157	<p>Rhaid ichi –</p> <p>(a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer</p> <p>(i) goruchwyllo'r modd yr ydych yn cydymffurfio â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy,</p> <p>(ii) hybu'r gwasanaethau a gynigir gennych yn unol â'r safonau hynny, a</p> <p>(iii) hwyluso defnyddio'r gwasanaethau hynny,</p> <p>(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar eich gwefan, ac</p> <p>(c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.</p>	Trafod yn fewnol ar sut i adrodd i'r Comisiynydd a chynnwys yr elfennau hybu, hwyluso a goruchwyllo yn y cynllun gweithredu / adroddiad blynyddol.	✓
158	(1) Rhaid ichi lunio adroddiad ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau cyflenwi	Trafod yn fewnol (Gweithgor staff) ar sut i adrodd i'r Comisiynydd a chynnwys yr elfennau hybu, hwyluso a goruchwyllo yn y cynllun gweithredu / adroddiad blynyddol.	✓

	<p>gwasanaethau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.</p> <p>(2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn honno a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.</p> <p>(3) Rhaid ichi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 30 Mehefin yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.</p> <p>(4) Rhaid ichi roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith eich bod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol.</p> <p>(5) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael -</p> <p>(a) ar eich gwefan, a ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.</p>		
159	Rhaid ichi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cydymffurfio	Drafftio Cynllun Gweithredu	✓

	â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.		
160	Rhaid ichi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau cyflenwi gwasanaethau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	Gweithredu'n ymatebol i ymholiadau'r Comisiynydd.	

Dosbarth o Safon: Llunio Polisi

Rhif Safon	Safon	Camau Gweithredu Polisi	Amserlen a thystiolaeth
88	Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried pa effeithiau, os o gwbl (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi yn eu cael ar - (a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	<ul style="list-style-type: none"> Trafodaeth fewnol ar yr angen i lunio canllawiau arbenigol ar effaith polisiau ar y Gymraeg. Cynnwys yr iaith Gymraeg yn rhan o broses Asesu Effaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. 	Trafodaeth fewnol a gwaith paratoi cychwynnol wedi digwydd i gychwyn ar y gwaith o lunio fframwaith newydd i gynnwys goblygiadau ieithyddol gyda gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r dyfodol a'r Ddeddf Cydraddoldeb. (Asesiad cynaliadwyedd, cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg).
89	Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r	Gweler safon 88	Gweler uchod

	<p>polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel y byddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar -</p> <p>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>		
90	<p>Pan fyddwch yn llunio polisi newydd, neu'n adolygu neu'n addasu polisi sydd eisoes yn bodoli, rhaid ichi ystyried sut y gellid llunio'r polisi (neu sut y gellid newid polisi sydd eisoes yn bodoli) fel na fyddai'r penderfyniad polisi'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar -</p> <p>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>	Gweler 88	Gweler uchod
91	<p>Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch yr effeithiau (pa un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol) y byddai'r penderfyniad polisi o dan ystyriaeth yn eu cael ar -</p> <p>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Trafodaeth gychwynnol gyda'r Swyddog Polisi Ymgysylltu a Chyfranogiad • Wedi cynnig dau gwestiwn i gynnwys yn nogfennau ymgynghori • Sicrhau bod y cwestiynau yn cael eu cynnwys a'u cyfathrebu gyda phawb sy'n cynnal ymgynghoriad 	✓

<p>92</p>	<p>Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar -</p> <p>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>	<p>Gweler 91</p>	<p>✓</p>
<p>93</p>	<p>Pan fyddwch yn cyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud â phenderfyniad polisi, rhaid i'r ddogfen honno ystyried a cheisio barn ynghylch sut y gellid llunio neu addasu'r polisi o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar -</p> <p>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>	<p>Gweler 91</p>	<p>✓</p>
<p>94 (48,</p>	<p>Rhaid ichi lunio a chyhoeddi polisi dyfarnu grantiau (neu, pan fo'n briodol, ddiwygio polisi sydd eisoes yn bodoli) sy'n ei gwneud yn ofynnol ichi ystyried y materion a ganlyn pan fyddwch yn gwneud penderfyniadau ynghylch dyfarnu grant -</p> <p>(a) pa effeithiau, os o gwbl (a pha un ai yw'r rheini'n bositif neu'n andwyol), y byddai dyfarnu grant yn eu cael ar -</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Trafod yn fewnol sut i fesur effaith. 	<p>Oedi'r drafodaeth yn sgil ailstrwythuro'r broses dyfarnu grantiau</p>

49)	<p>(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;</p> <p>(b) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau grant) fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar -</p> <p>(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;</p> <p>(c) sut y gellid gwneud neu weithredu penderfyniad (er enghraifft, drwy osod amodau grant) fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol ar -</p> <p>(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg;</p> <p>(ch) a oes angen ichi ofyn i'r ymgeisydd am grant am unrhyw wybodaeth ychwanegol er mwyn eich cynorthwyo i asesu effaith dyfarnu grant ar -</p> <p>(i) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a (ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>		
95	Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried pa effeithiau, os o gwbl (a pha	Cychwyn drafftio ac ymgynghori ar gyfer creu Canllaw Caffael,	✓

	<p>un ai ydynt yn rhai positif neu'n rhai andwyol), y byddai'r penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth yn eu cael ar –</p> <p>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>	comisiynu a dyrannu grantiau	
96	<p>Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel y byddai'n cael effeithiau positif, neu effeithiau mwy positif, ar -</p> <p>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>	Gweler 95	
97	<p>Pan fyddwch yn comisiynu neu'n gwneud gwaith ymchwil y bwriedir i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad polisi, rhaid ichi sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried sut y gellid gwneud y penderfyniad polisi sydd o dan ystyriaeth fel na fyddai'n cael effeithiau andwyol, neu fel y byddai'n cael effeithiau llai andwyol, ar -</p> <p>(a) cyfleoedd i bersonau ddefnyddio'r Gymraeg, a</p> <p>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.</p>	Gweler 95	

161 (Atodol)	<p>Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael -</p> <p>(a) ar eich gwefan, a</p> <p>(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.</p>	Cyhoeddi dogfen y Safonau ar wefan y Cyngor.	✓
162 (Atodol)	<p>Rhaid ichi -</p> <p>(a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n delio â'r materion a ganlyn -</p> <p>(i) sut yr ydych yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfedd â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a</p> <p>(ii) sut y byddwch yn darparu hyfforddiant i'ch staff ynglŷn â delio â'r cwynion hynny,</p> <p>(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich gwefan, ac</p> <p>(c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael, ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.</p>	Gweler 156	
163 (Atodol)	<p>Rhaid ichi -</p> <p>(a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer goruchwyllo'r modd yr ydych yn cydymffurfio â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy,</p> <p>(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar eich gwefan, ac</p> <p>(c) sicrhau bod copi o'r ddogfen honno ar gael ym</p>	Casglu gwybodaeth yn gyson ar weithrediad y Safonau (a fydd yn bwydo i mewn i'r Adroddiad blynyddol) drwy weithgarwch y Panel Ymgynghorol, y Gweithgor Staff ac ymholiadau adrannol.	Gweler adroddiad blynyddol

	mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.		
164 (Atodol)	<p>(1) Rhaid ichi lunio adroddiad, ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau llunio polisi yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.</p> <p>(2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau llunio polisi yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.</p> <p>(3) Rhaid ichi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 30 Mehefin yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.</p> <p>(4) Rhaid ichi roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith eich bod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol.</p> <p>(5) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael -</p> <p>(a) ar eich gwefan, a</p> <p>(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.</p>	Trafod yn fewnol ar sut i adrodd i'r Comisiynydd a chynnwys yr elfennau hybu, hwyluso a goruchwyllo yn y cynllun gweithredu / adroddiad blynyddol.	✓
165 (Atodol)	Rhaid ichi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	Trafod lleoliad Cyhoeddi Cynllun Gweithredu	✓

166 (Atodol)	Rhaid ichi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	Gweithredu'n ymatebol i ymholiadau'r Comisiynydd.	
--------------	--	---	--

Dosbarth o Safon: Gweithredu

Rhif Safon	Safon	Camau Gweithredu Polisi	Amserlen a thystiolaeth
98 (43)	Rhaid ichi ddatblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol, gyda'r bwriad o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg, a rhaid ichi gyhoeddi'r polisi hwnnw ar eich mewnwyd.	<ul style="list-style-type: none"> • Trafod yn fewnol a rhoi sylw pellach i ddatblygu polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol. • Ystyried cynnwys Safonau 99 – 144 yn y polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol. • Drafftio polisi i'w gyflwyno i'r Panel Ymgynghorol a'r Gweithgor staff • Uwch swyddogion i graffu ar y ddogfen yn fewnol 	✓

103	Rhaid ichi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ddogfennau sy'n amlinellu neu'n cofnodi ei gynllun gyrfa yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid ichi ddarparu unrhyw ddogfennau o'r fath iddo yn Gymraeg.	Adran Dysgu a Datblygu o fewn Adran Adnoddau Dynol i lunio a gweithredu Cynllun gweithredu sy'n nodi'r prosesau gweinyddol sydd angen bod mewn lle i gyrraedd y safon hon	
105	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch ymddygiad yn y gweithle, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	Cyfarfod gyda Adran Adnoddau Dynol i gyflwyno'r Safonau 99-119 a 127-131, 136-140.	
106	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch iechyd a lles yn y gweithle, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	Gweler uchod	
107	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch cyflogau neu fuddion yn y gweithle, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	Gweler uchod	
108	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch rheoli perfformiad, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	Gweler uchod	
109	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch absenoldeb o'r gwaith, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	Gweler uchod	
110	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch amodau gwaith, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	Gweler uchod	

111	Os byddwch yn cyhoeddi polisi ynghylch patrymau gwaith, rhaid ichi ei gyhoeddi yn Gymraeg.	Gweler uchod	
112	Rhaid ichi ganiatáu i bob aelod o'ch staff – (a) gwneud cwynion ichi yn Gymraeg, a (b) ymateb i unrhyw gwyn a wnaed amdano ef yn Gymraeg.		
112A	Rhaid ichi ddatgan mewn unrhyw ddogfen sydd gennych sy'n nodi eich gweithdrefnau ar gyfer gwneud cwynion y caiff pob aelod o staff - (a) gwneud cwyn ichi yn Gymraeg, a (b) ymateb i gwyn a wnaed amdano ef yn Gymraeg; a rhaid ichi hefyd roi gwybod i bob aelod o staff am yr hawl honno.	Cynnwys yn y drafft polisi defnyddio'r Gymraeg yn fewnol	

<p>114</p>	<p>Os byddwch yn cael cwyn gan aelod o staff neu'n cael cwyn ynghylch aelod o staff, a bod angen cyfarfod â'r aelod hwnnw o staff, rhaid ichi -</p> <p>(a) gofyn i'r aelod o staff a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod;</p> <p>(b) esbonio y byddwch yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw os yw'n ofynnol; ac os yw'r aelod o staff yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, rhaid ichi ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg yn y cyfarfod (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).</p>		
<p>115</p>	<p>Pan fyddwch yn rhoi gwybod i aelod o staff beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chwyn a wneir gan yr aelod hwnnw, neu mewn perthynas â chwyn a wneir amdano ef, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os yw'r aelod hwnnw o staff -</p> <p>(a) wedi gwneud y gwyn yn Gymraeg,</p> <p>(b) wedi ymateb yn Gymraeg i gwyn amdano ef,</p> <p>(c) wedi gofyn bod cyfarfod ynglŷn â'r gwyn yn cael ei gynnal yn Gymraeg, neu</p> <p>(ch) wedi gofyn am gael defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod ynglŷn â'r gwyn.</p>		
<p>116</p>	<p>Rhaid ichi ganiatáu i bob aelod o staff ymateb yn Gymraeg i honiadau a wneir yn ei erbyn mewn unrhyw broses ddisgyblu fewnol.</p>		

<p>116A</p>	<p>Rhaid ichi -</p> <p>(a) datgan mewn unrhyw ddogfen sydd gennych sy'n nodi eich trefniadau ar gyfer disgyblu staff y caiff unrhyw aelod o staff ymateb yn Gymraeg i unrhyw honiadau a wneir yn ei erbyn, a</p> <p>(b) os byddwch yn dechrau gweithdrefn ddisgyblu mewn perthynas ag aelod o staff, rhoi gwybod i'r aelod hwnnw o staff am yr hawl honno.</p>		
<p>118</p>	<p>Os byddwch yn trefnu cyfarfod ag aelod o staff ynghylch achos disgyblu mewn perthynas â'i ymddygiad, rhaid ichi -</p> <p>(a) gofyn i'r aelod o staff a yw'n dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod, a</p> <p>(b) esbonio y byddwch yn darparu gwasanaeth cyfieithu at y diben hwnnw os yw'n ofynnol; ac, os yw'r aelod o staff yn dymuno defnyddio'r Gymraeg, rhaid ichi ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i Saesneg yn y cyfarfod (os nad ydych yn cynnal y cyfarfod yn Gymraeg heb wasanaeth cyfieithu).</p>		
<p>119</p>	<p>Pan fyddwch yn rhoi gwybod i aelod o staff beth yw'ch penderfyniad yn dilyn proses ddisgyblu, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os yw'r aelod hwnnw o staff -</p> <p>(a) wedi ymateb i honiadau yn ei erbyn yn Gymraeg,</p> <p>(b) wedi gofyn bod cyfarfod ynglŷn â'r broses ddisgyblu yn cael ei gynnal yn Gymraeg, neu</p>		

	(c) wedi gofyn am gael defnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfod ynglŷn â'r broses ddisgyblu.		
120	Rhaid ichi ddarparu meddalwedd gyfrifiadurol ar gyfer gwirio sillafu a gramadeg y Gymraeg i'ch staff, a darparu rhyngwynebau Cymraeg ar gyfer meddalwedd (pan fo rhyngwyneb ar gael).	<ul style="list-style-type: none"> • Cysylltu gyda'r Ddesg Gymorth i gael gwybodaeth gyflawn ar sut i wneud hyn • Cynnwys esboniad ar sut i wneud hyn yng nghylchlythyr Adfywio a Pholisi • Cynnwys yn y daflen ddrafft Canllawiau Cymorth Ysgrifennu Cymraeg • Cynnwys yn y daflen ohebu 	✓
122	Rhaid ichi sicrhau - (a) bod testun hafan eich mewnrwyd ar gael yn Gymraeg, (b) bod unrhyw destun Cymraeg ar hafan eich mewnrwyd (neu, pan fo'n berthnasol, bod hafan Gymraeg eich mewnrwyd) yn gweithredu'n llawn, ac (c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â hafan eich mewnrwyd.	<ul style="list-style-type: none"> • Trafod gyda'r Adran Gyfathrebu, wrth lunio'r fewnrwyd newydd 	✓

123	<p>Bob tro y byddwch yn cyhoeddi tudalen newydd neu'n diwygio tudalen ar eich mewnrwyd, rhaid ichi sicrhau -</p> <p>(a) bod testun y dudalen honno ar gael yn Gymraeg,</p> <p>(b) bod unrhyw fersiwn Gymraeg o'r dudalen yn gweithredu'n llawn, ac</p> <p>(c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn perthynas â thestun y dudalen honno.</p>	Gweler uchod	
124	<p>Os oes gennych dudalen Gymraeg ar eich mewnrwyd sy'n cyfateb i dudalen Saesneg, rhaid ichi nodi'n glir ar y dudalen Saesneg bod y dudalen hefyd ar gael yn Gymraeg, a rhaid darparu dolen uniongyrchol i'r dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol.</p>	Gweler uchod	
125	<p>Rhaid ichi neilltuo a chynnal tudalen (neu dudalennau) ar eich mewnrwyd sy'n darparu gwasanaethau a deunydd cymorth i hybu'r Gymraeg ac i gynorthwyo eich staff i ddefnyddio'r Gymraeg.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Llunio cwestiynau a ofynnir yn aml a'u cyhoeddi ar y fewnrwyd • Llunio canllawiau ar sut i ddarparu gwasanaethau dwyieithog a'u cyhoeddi ar y fewnrwyd • Drafftio Canllaw 'Cymorth Ysgrifennu' 	✓
126	<p>Rhaid ichi ddarparu'r rhyngwyneb a'r dewislenni ar eich tudalennau mewnrwyd yn Gymraeg.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Trafod gyda'r Adran Gyfathrebu 	✓

<p>127 (35, 37, 38, 40)</p>	<p>Rhaid ichi asesu sgiliau Cymraeg eich cyflogeion.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cyfarfodydd gydag adnoddau dynol, mis Rhagfyr, ac yna pob pythefnos • Paratoi Awdit Sgiliau Iaith newydd ar gyfer staff sydd â mynediad i gyfrifiaduron, ac un papur ar gyfer staff estynedig 	<p>✓</p>
<p>130 (39, 61)</p>	<p>Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd yn ystod oriau gwaith - (a) i'ch cyflogeion gael gwersi Cymraeg sylfaenol, a (b) i gyflogeion sy'n rheoli pobl eraill gael hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg yn eu rôl fel rheolwyr.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • mapio darpariaeth bresennol gwersi Cymraeg y Cyngor gyda'r Adran Dysgu a Datblygu , • Ymateb i ganlyniad tendr yr Egin, i gynllunio darpariaeth. Cynnal cyfarfodydd amrywiol gyda Phrifysgol Aberystwyth a'r Egin a chadw golwg ar y sefyllfa o ran y NPS • Cynnig 6 sesiwn lefel 1 rhwng Ionawr a Mawrth '16 • cynnig cwrs datblygu sgiliau Cymraeg i reolwyr 	<p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p>
<p>131 (39, 61,</p>	<p>Rhaid ichi ddarparu cyfleoedd i'ch cyflogeion sydd wedi cwblhau hyfforddiant Cymraeg sylfaenol gael hyfforddiant pellach yn rhad ac am ddim er</p>	<p>Fel uchod</p>	

62)	mwyn datblygu eu sgiliau yn yr iaith.		
132	<p>Rhaid ichi ddarparu cyrsiau hyfforddi er mwyn i'ch cyflogeion ddatblygu -</p> <p>(a) ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (gan gynnwys ymwybyddiaeth am hanes yr iaith a'i lle yn niwylliant Cymru);</p> <p>(b) dealltwriaeth o'r ddyletswydd i weithredu yn unol â safonau'r Gymraeg;</p> <p>(c) dealltwriaeth am y modd y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Cynnwys yn drafft y Polisi defnydd mewnol o'r Gymraeg yn y gweithle (S98) • Cydgynllunio e-fodiwl anwytho newydd a fydd yn cynnwys a, b, a c • Cychwyn ar y gwaith o drefnu e-fodiwl Ymwybyddiaeth Iaith newydd • Creu taflen 'Pam defnyddio'r Gymraeg' • Cyhoeddi'r daflen ar y fewnrwyd • Dosbarthu linc at y daflen 'Pam defnyddio'r Gymraeg' gyda Cyfathrebu ar Egair ac Y Gair yn Ionawr 2016 • Cychwyn ar ddarparu hyfforddiant ar ddyletswydd i ddarparu yn unol â'r Safonau i'r Adran Hamdden • Cydgysylltu gyda AWA am greu modiwl e-ddysgu ymwybyddiaeth iaith newydd • Cynnwys elfen o ymwybyddiaeth iaith yn y cwrs 'Croeso i'r Gymraeg' 	<p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p> <p>✓</p>

133	Pan fyddwch yn darparu gwybodaeth i gyflogeion newydd (er enghraifft, fel rhan o broses ymsefydlu), rhaid ichi ddarparu gwybodaeth er mwyn codi eu hymwybyddiaeth o'r Gymraeg.	<ul style="list-style-type: none"> • Cydgyllunio e-fodiwl anwytho newydd 	✓
134	Rhaid ichi ddarparu geiriad neu logo ar gyfer llofnodion e-bost eich staff sy'n eu galluogi i ddynodi a ydynt yn siarad Cymraeg yn rhugl neu'n dysgu'r iaith.	<ul style="list-style-type: none"> • Cynnwys yn y canllaw gohebu • Datblygu geiriad a'i gynnwys yn y daflen Canllawiau Cymorth Ysgrifennu Cymraeg • Cadw cofnod o gymorth posib ar gyfer adnodd newydd ar y fewnrwyd ac ymchwilio i bosibiliadau o lunio adnodd newydd 	✓
135	Rhaid ichi ddarparu geiriad ar gyfer eich cyflogeion fydd yn eu galluogi i gynnwys fersiwn Gymraeg o'u manylion cyswllt mewn negeseuon e-byst, ac i ddarparu fersiwn Gymraeg o unrhyw neges sy'n hysbysu pobl eraill nad ydynt ar gael i ateb negeseuon ebost.	Cynnwys yn y daflen Canllawiau Cymorth Ysgrifennu Cymraeg	✓
136 (33, 34 – polisi recriwtio, a 36 - hyfforddiant	Pan fyddwch yn asesu'r anghenion ar gyfer swydd newydd neu swydd wag, rhaid ichi asesu'r angen am sgiliau yn y Gymraeg, a'i chategoreiddio fel swydd pan fo un neu ragor o'r canlynol yn gymwys - (a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol;	<ul style="list-style-type: none"> • Llunio, cytuno a chyhoeddi Strategaeth Sgiliau Iaith newydd sydd yn gosod y Gymraeg fel sgiliau hanfodol ar gyfer pob swydd yn y Cyngor 	✓

)	<p>(b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir rhywun i'r swydd;</p> <p>(c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu (ch) nad yw sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.</p>	<p>gan fabwysiadu addasiad o fframwaith ALTE ar gyfer asesu lefel sgiliau angenrheidiol ar gyfer swyddi ac ymgeiswyr.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyflwyno' Strategaeth Sgiliau Iaith newydd i'r Comisiynydd • Cyhoeddi'r Strategaeth Sgiliau ar y fewnrwyd • Creu Canllaw Sgiliau Iaith a recriwtio • Cyhoeddi'r Canllaw ar y fewnrwyd 	
136A	<p>Os byddwch wedi categorio swydd fel un sy'n gofyn bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol, yn ddymunol neu fod angen eu dysgu, rhaid ichi -</p> <p>(a) pennu hynny wrth hysbysebu'r swydd, a</p> <p>(b) hysbysebu'r swydd yn Gymraeg.</p>	Gwirio bod hyn yn weithredol	
137	<p>Pan fyddwch yn hysbysebu swydd, rhaid ichi ddatgan y caniateir i geisiadau gael eu cyflwyno yn Gymraeg, ac na fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.</p>	Gwirio bod hyn yn weithredol	

<p>137A</p>	<p>Os byddwch yn cyhoeddi - (a) ffurflenni cais am swyddi; (b) deunydd esboniadol ynghylch eich proses ar gyfer ymgeisio am swyddi; (c) gwybodaeth am eich proses gyf-weld, neu am unrhyw ddulliau asesu eraill wrth ymgeisio am swyddi; (ch) swydd-ddisgrifiadau; rhaid ichi eu cyhoeddi yn Gymraeg a rhaid ichi sicrhau nad ydych yn trin unrhyw fersiynau Cymraeg o'r dogfennau yn llai ffafriol na fersiynau Saesneg ohonynt.</p>	<p>Gwirio bod hyn yn weithredol</p>	
<p>137B</p>	<p>Rhaid ichi beidio â thrin cais am swydd a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na chais a wneir yn Saesneg (gan gynnwys, ymysg pethau eraill, o ran y dyddiad cau yr ydych yn ei osod ar gyfer cael ceisiadau, ac o ran amseriad rhoi gwybod i unigolion ynghylch penderfyniadau).</p>	<p>Gweler uchod</p>	
<p>139</p>	<p>Rhaid ichi sicrhau bod eich ffurflenni cais am swyddi - (a) yn rhoi lle i unigolion nodi eu bod yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn cyfweiliad neu ddull arall o asesiad, a (b) yn esbonio y byddwch yn darparu gwasanaeth cyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg at y diben hwnnw os oes angen; ac, os yw'r unigolyn yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfweiliad neu'r asesiad, rhaid ichi ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn y cyfweiliad neu asesiad (os nad ydych yn cynnal</p>		

	y cyfweliad neu'r asesiad yn Gymraeg heb y gwasanaeth cyfieithu hwnnw).		
140	Pan fyddwch yn rhoi gwybod i unigolyn beth yw'ch penderfyniad mewn perthynas â chais am swydd, rhaid ichi wneud hynny yn Gymraeg os gwnaed y cais yn Gymraeg.		
141	Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd yn eich gweithle (gan gynnwys arwyddion dros dro), rhaid i unrhyw destun sy'n cael ei arddangos ar yr arwydd gael ei arddangos yn Gymraeg (pa un ai ar yr un arwydd sy'n arddangos y testun Saesneg cyfatebol neu ar arwydd ar wahân), ac os yw'r un testun yn cael ei arddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid ichi beidio â thrin y testun Cymraeg yn llai ffafriol na'r testun Saesneg.	Sicrhau bod yr Adran Eiddo Corfforaethol a'r Adran Cynnal Eiddo'n cynnwys y Safon hon yn ei weithdrefnau.	✓
142	Pan fyddwch yn gosod arwydd newydd neu'n adnewyddu arwydd yn eich gweithle (gan gynnwys arwyddion dros dro), a bod yr arwydd hwnnw'n cyfleu yr un wybodaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r testun Cymraeg gael ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.	Gweler uchod	✓
143	Rhaid ichi sicrhau bod y testun Cymraeg ar arwyddion a arddangosir yn eich gweithle yn gywir o ran ystyr a mynegiant	Gweler uchod	✓

144	Pan fyddwch yn gwneud cyhoeddiadau dros offer sain yn eich gweithle, rhaid i'r cyhoeddiad hwnnw gael ei wneud yn Gymraeg, ac os gwneir y cyhoeddiad yn Gymraeg ac yn Saesneg, rhaid i'r cyhoeddiad gael ei wneud yn Gymraeg yn gyntaf.	Cynnwys yng nghanllawiau cynnal digwyddiadau cyhoeddus	✓
167 (Atodol)	Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael - (a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.	Trafod gyda'r Adran Cyfathrebu anghenion Cyhoeddi dogfennau yn ymwneud â'r Safonau ar wefan y Cyngor	
168 (Atodol)	Rhaid ichi - (a) sicrhau bod gennych weithdrefn gwyno sy'n delio â'r materion a ganlyn - (i) sut yr ydych yn bwriadu delio â chwynion ynglŷn â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a (ii) sut y byddwch yn darparu hyfforddiant i'ch staff ynglŷn â delio â'r cwynion hynny, a (b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r weithdrefn honno ar eich mewnrwyd.	Gweler Safon 162 ac 156	
169 (Atodol)	Rhaid ichi - (a) sicrhau bod gennych drefniadau ar gyfer (i) goruchwyllo'r modd yr ydych yn cydymffurfio â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â	Trafod yn fewnol ar sut i adrodd i'r Comisiynydd a chynnwys yr elfennau hybu, hwyluso a goruchwyllo yn y cynllun gweithredu / adroddiad	

	<p>hwy,</p> <p>(ii) hybu'r gwasanaethau a gynigir gennych yn unol â'r safonau hynny, a</p> <p>(iii) hwyluso defnyddio'r gwasanaethau hynny, a</p> <p>(b) cyhoeddi dogfen sy'n cofnodi'r trefniadau hynny ar eich mewnwyd.</p>	blynyddol.	
170 (Atodol)	<p>(1) Rhaid ichi lunio adroddiad ("adroddiad blynyddol"), yn Gymraeg, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, sy'n delio â'r modd y bu ichi gydymffurfio â'r safonau gweithredu yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy yn ystod y flwyddyn honno.</p> <p>(2) Rhaid i'r adroddiad blynyddol gynnwys yr wybodaeth a ganlyn (pan fo'n berthnasol, i'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau y cyfeirir atynt) -</p> <p>(a) nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd y flwyddyn o dan sylw (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 151);</p> <p>(b) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd gennych yn y Gymraeg yn ystod y flwyddyn (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);</p> <p>(c) os cynigiwyd fersiwn Gymraeg o gwrs gennych yn ystod y flwyddyn, y ganran o gyfanswm nifer y staff a fynychodd y cwrs a fynychodd y fersiwn Gymraeg (ar sail cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 152);</p> <p>(ch) nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a hysbysebwyd gennych yn ystod y flwyddyn a</p>	<ul style="list-style-type: none"> O ran pwynt (ch), mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Strategaeth Sgiliau Iaith Gymraeg newydd o 1 Ebrill 2016. Bydd pob swydd a hysbysebwr gan y cyngor ar isafswm o Lefel 1 o'r Fframwaith Sgiliau Iaith. Byddwn yn adrodd ar gynnydd wrth weithredu'r Strategaeth newydd yn Adroddiad Blynyddol 2016/17. 	

	<p>gategoreiddiwyd fel swyddi sy'n gofyn -</p> <p>(i) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol</p> <p>(ii) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg pan benodir i'r swydd,</p> <p>(iii) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol, neu</p> <p>(iv) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol, (ar sail y cofnodion a gadwasoch yn unol â safon 154);</p> <p>(d) nifer y cwynion a gawsoch yn ystod y flwyddyn a oedd yn ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr oeddech o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.</p> <p>(3) Rhaid ichi gyhoeddi'r adroddiad blynyddol heb fod yn hwyrach na 30 Mehefin yn dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r adroddiad yn ymwneud â hi.</p> <p>(4) Rhaid ichi roi cyhoeddusrwydd i'r ffaith eich bod wedi cyhoeddi adroddiad blynyddol.</p> <p>(5) Rhaid ichi sicrhau bod copi cyfredol o'ch adroddiad blynyddol ar gael –</p> <p>(a) ar eich gwefan, a</p> <p>(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.</p>		
171 (Atodol)	<p>Rhaid ichi gyhoeddi dogfen ar eich gwefan sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cydymffurfio â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.</p>	<p>Drafftio Cynllun Gweithredu</p>	<p>✓</p>

172 (Atodol)	Rhaid ichi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau gweithredu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.	Gweithredu'n ymatebol i ymholiadau'r Comisiynydd.	
--------------	---	---	--

Dosbarth o Safon: Cadw Cofnodion

Rhif Safon	Safon	Camau Gweithredu Polisi	Amserlen a thystiolaeth
147	Rhaid ichi gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol, o nifer y cwynion yr ydych yn eu cael sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau.	Ystyried addasrwydd y weithdrefn bresennol ar gyfer adrodd ar gwynion yn ymwneud a'r Safonau. Trafod hyn gyda'r Rheolwr Cwynion	
148	Rhaid ichi gadw copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig yr ydych yn ei chael sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.		Cedwir copïau o bob gohebiaeth ar system ffeilio electronig y cyngor
149	Rhaid ichi gadw copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig yr ydych yn ei chael sy'n ymwneud â'r Gymraeg (pa un ai yw'r gŵyn yn ymwneud â'r safonau yr ydych o dan ddyletswydd i		

	gydymffurfio â hwy ai peidio)		
150	Rhaid ichi gadw cofnod o'r camau yr ydych wedi eu cymryd i sicrhau y cydymffurfir â'r safonau llunio polisi yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.		✓
151 (35, 37, 38)	Rhaid ichi gadw cofnod (yn dilyn asesiadau o sgiliau iaith Gymraeg eich cyflogeion a wnaed gennych yn unol â safon 127), o nifer y cyflogeion sy'n meddu ar sgiliau yn y Gymraeg ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol a, phan fo hynny'n wybyddus ichi, rhaid ichi gadw cofnod o lefel sgiliau'r cyflogeion hynny.		Atodiad 5
153	Rhaid ichi gadw cofnod o bob asesiad a gynhaliwch (yn unol â safon 136) mewn cysylltiad â'r sgiliau Cymraeg y gallai fod eu hangen mewn perthynas â swydd newydd neu swydd wag.		✓
154 (33,3 6)	Rhaid ichi gadw cofnod, mewn perthynas â phob blwyddyn ariannol o nifer y swyddi newydd a'r swyddi gwag a gategoreiddiwyd (yn unol â safon 136) fel swyddi sy'n gofyn (a) bod sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol; (b) bod angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg unwaith y penodir rhywun i'r swydd; (c) bod sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol; neu (ch) nad oedd sgiliau yn y Gymraeg yn angenrheidiol.		Gweler 170

<p>175 (Atodol)</p>	<p>Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau cadw cofnodion yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael -</p> <p>(a) ar eich gwefan, a</p> <p>(b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.</p>		
<p>176 (Atodol)</p>	<p>Rhaid ichi ddarparu unrhyw gofnodion a gadwasoch yn unol â'r safonau cadw cofnodion yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy i Gomisiynydd y Gymraeg, os bydd y Comisiynydd yn gofyn am y cofnodion hynny.</p>	<p>Gweithredu'n ymatebol i ymholiadau'r Comisiynydd.</p>	

Safonau y bydd yn ofynnol i gydymffurfio â hwy o fewn blwyddyn.

Dosbarth o Safon: Cyflenwi Gwasanaethau

Rhif Safon	Dosbarth o Safon	Safon	Camau Gweithredu Polisi	Amserlen a thystiolaeth
76	Cyflenwi Gwasanaethau	Rhaid i unrhyw wahoddiadau i dendro am gontract yr ydych yn eu cyhoeddi gael eu cyhoeddi yn Gymraeg, a rhaid ichi beidio â thrin fersiwn Gymraeg o unrhyw wahoddiad yn llai ffafriol na fersiwn Saesneg ohono.	Trafod y gofynion hyn gyda'r Adran Gaffael	✓
104	Gweithredu	Rhaid ichi ofyn i bob cyflogai a fyddai'n dymuno cael unrhyw ffurflenni sy'n cofnodi ac yn awdurdodi - (a) gwyliau,		

		(b) absenoldebau o'r gwaith, ac (c) oriau gwaith hyblyg, yn Gymraeg; ac os yw'n dymuno hynny rhaid ichi ddarparu unrhyw ffurflenni o'r fath iddo yn Gymraeg.		
121	Gweithredu	Rhaid ichi sicrhau - (a) bod testun pob tudalen ar eich mewnrwyd ar gael yn Gymraeg, (b) bod pob tudalen Gymraeg ar eich mewnrwyd yn gweithredu'n llawn, ac (c) nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn	Cydweithio gyda'r Adran Gyfathrebu i gyflawni hyn	✓
128	Gweithredu	Rhaid ichi ddarparu hyfforddiant yn Gymraeg yn y meysydd a ganlyn, os ydych yn darparu hyfforddiant o'r fath yn Saesneg - (a) recriwtio a chyf-weld; (b) rheoli perfformiad; (c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu; (ch) ymsefydlu; (d) delio â'r cyhoedd; ac (dd) iechyd a diogelwch.		

129	Gweithredu	Rhaid ichi ddarparu hyfforddiant (yn Gymraeg) ar ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn - (a) cyfarfodydd; (b) cyfweiliadau; ac (c) gweithdrefnau cwyno a disgyblu.		
-----	------------	---	--	--

145 (50, 51)	Hybu	<p>Rhaid ichi lunio, a chyhoeddi ar eich gwefan, strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu mynd ati i hybu'r Gymraeg ac i hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn ehangach yn eich ardal; a rhaid i'r strategaeth gynnwys (ymysg pethau eraill) -</p> <p>(a) targed (yn nhermau canran y siaradwyr yn eich ardal) ar gyfer cynyddu neu gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal erbyn diwedd y cyfnod o 5 mlynedd o dan sylw, a</p> <p>(b) datganiad sy'n esbonio sut yr ydych yn bwriadu cyrraedd y targed hwnnw; a rhaid ichi adolygu'r strategaeth a chyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni ar eich gwefan o fewn 5 mlynedd i ddyddiad cyhoeddi'r strategaeth (neu i ddyddiad cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ohoni).</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Tîm Polisi i drafod gyda'r Fforwm Strategol Sirol a'r Panel ymgynghorol • Drafftio Strategaeth hybu • Trafod drafft gyda'r Fforwm sirol a'r Panel ymgynghorol 	✓
--------------	------	--	---	---

146	Hybu	<p>Bum mlynedd ar ôl cyhoeddi strategaeth yn unol â safon 145 rhaid ichi -</p> <p>(a) asesu i ba raddau yr ydych wedi dilyn y strategaeth honno ac wedi cyrraedd y targed a osodwyd ganddi, a</p> <p>(b) cyhoeddi'r asesiad ar eich gwefan, gan sicrhau ei fod yn cynnwys yr wybodaeth a ganlyn -</p> <p>(i) nifer y siaradwyr Cymraeg yn eich ardal, ac oedran y siaradwyr hynny;</p> <p>(ii) rhestr o'r gweithgareddau a drefnwyd gennych neu a ariannwyd gennych yn ystod y 5 mlynedd flaenorol er mwyn hybu defnyddio'r Gymraeg.</p>	<p>Trafod opsiynau ar fesur effaith ac adrodd ar weithgarwch gyda'r Panel a'r Fforwm Sirol</p>	
152	Cadw Cofnodion	<p>Rhaid ichi gadw cofnod, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, o -</p> <p>(a) nifer yr aelodau o staff a fynychodd gyrsiau hyfforddi a gynigiwyd gennych yn Gymraeg (yn unol â safon 128), a</p>		

173	Atodol – Hybu	<p>Rhaid ichi sicrhau bod dogfen sy'n cofnodi'r safonau hybu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy, a'r graddau yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â'r safonau hynny, ar gael -</p> <p>(a) ar eich gwefan, a (b) ym mhob un o'ch swyddfeydd sy'n agored i'r cyhoedd.</p>		
174	Atodol – Hybu	<p>Rhaid ichi ddarparu unrhyw wybodaeth y bydd Comisiynydd y Gymraeg yn gofyn amdani sy'n ymwneud â'ch cydymffurfedd â'r safonau hybu yr ydych o dan ddyletswydd i gydymffurfio â hwy.</p>	<p>Gweithredu'n ymatebol i ymholiadau'r Comisiynydd.</p>	

Atodiad 1: Argymhellion o Adroddiad 'Y Gymraeg yn Sir Gâr'

Argymhelliad	Cam gweithredu	
28 Bod y Cyngor Sir yn datblygu ei bolisi tai fforddiadwy ymhellach gan sicrhau argaeledd uwch o fewn datblygiadau tai.	Edrych ar opsiynau lle gellir datblygu'r polisi ymhellach.	Cafodd y Cynllun Darparu Tai Fforddiadwy ei gymeradwyo gan y Cyngor ar 10 Mawrth 2016. Mae'r cynllun yn bwriadu cynyddu'r ddarpariaeth p dai fforddiadwy yn y sir gan fwy na 1000 o dai erbyn 2020.
29 Bod y Cyngor Sir yn cymryd camau pellach i fynd i'r afael â'r nifer o dai gwag o fewn y sir er mwyn eu dychwelyd at ddefnydd lleol.	Edrych ar gynlluniau cenedlaethol megis 'Houses into Homes' ac ystyried dulliau gweithredu lleol. Hyrwyddo'r gefnogaeth sydd ar gael gan y Cyngor i berchnogion tai i adnewyddu eu tai. Rhoi hysbyseb ym mhapurau bro y sir.	Mae Cyngor Sir Gâr wedi cymeradwyo cyfanswm o £1.3 Miliwn mewn perthynas â'r cynllun Tai i Gartrefi. Wedi derbyn dyraniad ychwanegol o £625k oddi wrth Lywodraeth Cymru, mae'r Cyngor wedi llwyddo cymeradwyo £120k o fenthyciadau, gyda llawer o geisiadau newydd yn cael eu hystyried. Mae'r galw yn parhau i fod yn y Sir, ac mae cysylltiadau yn cael eu sefydlu gyda'r Cynllun Tai Fforddiadwy.
30 Bod y Cyngor Sir yn gosod trothwy uwch am dai fforddiadwy ar gyfer datblygiadau ar dir sy'n eiddo i'r Cyngor Sir	Trafod gyda'r Pennaeth Eiddo Corfforaethol. Angen trafodaeth tebyg gyda chyrrff cyhoeddus eraill sy'n berchen eiddo yn Sir Gâr.	
31 Bod y Cyngor Sir yn cynnal ymgyrch farchnata i godi ymwybyddiaeth am y Gofrestr Dewis Tai.	Ymgyrch benodol trwy'r papurau bro.	
53 Bod y Cyngor Sir, mewn trafodaeth gyda'r tair menter iaith yn y sir, ac ar sail y	Llunio rhaglen waith mewn partneriaeth â'r Mentrau Iaith yn y sir.	- Trafodwyd yr adroddiadau yng nghyfarfodydd y Fforwm Sirol.

Argymhelliad	Cam gweithredu	
<p>dadansoddiad ystadegol, yn comisiynu gwaith penodol i bob menter ei gyflawni. Dylid rhoi ystyriaeth lawn i argymhellion yr adroddiad cenedlaethol 'Adolygiad o waith y Mentrau Iaith, y Cynlluniau Gweithredu Iaith a Chynllun Hybu'r Gymraeg Aman Tawe' wrth lunio'r rhaglen waith.</p>		<ul style="list-style-type: none"> - Cytunwyd ar restr o dargedau ar gyfer pob Menter ar gyfer 2015-16, - Drwy'r Fforwm Sirol, cytunwyd ar 6 ardal daearyddol o flaenoriaeth i gydgyllunio darpariaeth ar eu cyfer. - Cychwynwyd ar y gwaith o drafod y Strategaeth Hybu yn y Fforwm Sirol, ac fe fydd hwn yn arwain y gwaith gyda'r mudiadau iaith fwyfwy yn y dyfodol.
<p>54 Bod y Cyngor Sir a'r Mentrau Iaith lleol yn gweithio gyda chlybiau chwaraeon lleol i'w cefnogi i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd o'u darpariaeth, gan gynnwys iaith yr hyfforddiant a gweinyddiaeth y clwb (hefyd wedi'i gynnwys yn yr adran Cyfleoedd Cymunedol).</p>		<p>Yn ystod y cyfnod yma mae'r mentrau wedi bod yn gweithio ar ddatblygu cynllun 'Gwobr y Gymraeg'. Datblygodd y cynllun i fod yn brosiect rhanbarthol. Fel rhan o'r cynllun fe fyddai Clybiau chwaraeon, busnesau, a sefydliadau 3ydd sector eraill yn cael asesiad o ran darpariaeth Cymraeg. Fe fyddai'r fenter a'r sefydliad dan sylw yn edrych ar ddarpariaeth ysgrifenedig, wyneb yn wyneb, digidol ac yn y blaen. Ar ôl y cyfnod cychwynol yma fe fyddai'r sefydliad yn cael marc safon o Efydd, Arian neu Aur yn ddibynnol ar y gwasanaeth maent yn gallu cynnig (gweler yr atodiad). Roedd hefyd opsiwn ymrwymiad sef i'r rhai hynny nad oedd yn cyrraedd y safon efydd ond a oedd yn barod i ddatblygu eu darpariaeth gyda help y Fenter. Y bwriad wedyn oedd gweithio gyda phawb oedd yn rhan o'r cynllun i ddatblygu ar hyd y llwybr tuag at safon aur.</p>

Argymhelliad	Cam gweithredu	
		<p>Fe ddaeth i'r amlwg fod gan y Llywodraeth gynlluniau tebyg ar y gweill trwy gyllid Ewropeaidd yn ymwneud â'r maes hwn. Er mwyn osgoi dyblygu gwaith, fe ofynnodd y Llywodraeth inni beidio â pharhau gyda'r cynllun hwn, er ein bod yn barod wedi talu am y dylunio ac wedi bwriadu mynd i brint yn ystod yr wythnos honno. Rydym felly am fwydo ein gwaith ni i mewn i'r cynllun newydd ac yn paratoi i gydweithio a chefnogi er mwyn sicrhau llwyddiant y cynllun yn y dyfodol.</p> <p>Rydym hefyd yn bwriadu cydweithio a chefnogi Comisiynydd y Gymraeg a Chwaraeon Cymru gyda'r ymgyrch 'Amdani'. Bwriad yr ymgyrch ar adnodd newydd ydy hyrwyddo'r buddion sydd ar gael o gynnig gweithgaredd trwy gyfrwng y Gymraeg.</p>
<p>57 Bod y Cyngor Sir yn cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn ei wasanaeth ieuenctid ac yn cefnogi staff o fewn y gwasanaeth i ddatblygu eu sgiliau i weithio trwy gyfrwng y Gymraeg.</p>	<p>Paratoi cytundeb ar gyfer darparu 6 clwb ieuenctid cyfrwng Cymraeg yn y sir</p>	<p>1. Clybiau ieuenctid</p> <p>Wedi gwerthuso'r clybiau yn eu blwyddyn gyntaf, penderfynwyd nad oedd hi'n ddichonadwy i barhau gyda chytundeb y Clwb yn Llandeilo.</p> <p>Drachefn, mae'r 3 arall (Llanelli, Caerfyrddin a Rhydaman– partneriaeth efo'r Urdd a Mentrau Iaith) yn parhau i redeg.</p>

Argymhelliad	Cam gweithredu	
		<p>Ein dymuniad fyddai rhedeg 3 arall – adfer y clwb yn Llandeilo, agor clwb yng Nghwm Gwendraeth ac efallai yn Nghastell Newydd Emlyn.</p> <p>Mae'r gwasanaeth leuenctid wedi bod trwy gyfnod o ailstrwythuro mawr, sydd wedi mynnu llawer o'n sylw. Gyda'r strwythur newydd nawr mwy neu lai yn ei le, gallwn edrych o'r newydd ar ddatblygu'r 3 clwb arall – er mai cyllid (neu ddiffyg cyllid) yw'r bwgan mwyaf.</p> <p>2. Staffio</p> <p>a) Defnyddiodd y Gwasanaeth Cymorth leuenctid fframwaith ALTE er mwyn pennu gofynion ieithyddol 2 swydd, a hynny ar gyfer i. Swydd y Prif Swyddog (ffes 1 yr ailstrwythuro diweddar) a ii.Swyddi 4 Rheolwr 4ydd haen (ffes 2 yr ailstrwythuro). Roedd gofynion ieithyddol y swyddi yma wedi'u gosod yn briodol heriol. At hynny, cynhaliwyd asesiad llafar ac ysgrifenedig ar gyfer swydd y Prif Swyddog yn y cyfweiliadau (rhywbeth anghyffredin wrth benodi ar gyfer yr haenau yma o gyflogyddion). Roedd cwestiwn penodol ar sgiliau Cymraeg yn y cyfweiliadau</p>

Argymhelliad	Cam gweithredu	
		<p>eraill.</p> <p>b) Mae'r Gwasanaeth Cymorth Ieuentid yn gefnogol i'r Strategaeth Sgiliau Iaith Corfforaethol newydd. Yn dilyn y Strategaeth, cynhaliwyd awdit o hyfedredd y staff. Tra bo manylder yr awdit eto i'w dderbyn (hyfedredd ar draws y lefelau gwahanol), amcangyfrifwn fod gennym 39/71 staff sydd yn medru'r Gymraeg (c. 55%), sydd goruwch yr ystadegyn ar gyfer Sir Gâr yng Nghyfrifiad 2011.</p> <p>c) Bwriadwn barhau i gefnogi staff i gaffel rhagor o sgiliau yn y Gymraeg, fel bydd y cynllun hyfforddi corfforaethol newydd yn cael ei gyflwyno.</p> <p>Ch) Mae gennym gapasiti cynyddol o fewn y gwasanaeth i gyflwyno darpariaeth drwy'r Gymraeg</p> <p>d) Byddwn yn manteisio ar gyfleoedd pellach i recriwtio staff dwyieithog ar gyfer cyfres o benodiadau ysbeidiol sydd ar y gorwel</p> <p>3. Safonau Iaith</p>

Argymhelliad	Cam gweithredu	
		<p>Mae safonau'r Comisiynydd, a'r oblygiadau, wedi treiddio trwy weithlu'r gwasanaeth. Bydd hyn yn adlewyrchu yng ngweinyddiad y gwasanaeth e.e. llythyron, e-byst a gohebiaeth gyhoeddus arall.</p> <p>4. Materion Strategol</p> <p>Mae'r Pennaeth Gwasanaeth ynghlwm wrth gynghori ar ddyfodol y Gwasanaeth Cymraeg i Oedolion o fewn y Cyngor Sir. Anelwn at esgor sefyllfa fydd yn fanteisiol i ddatblygiad ein holl adrannau o fewn corfforaeth y Cyngor Sir, gan gynnwys y Gwasanaeth Cefnogi Ieuenctid</p> <p>Mae'r Pennaeth Gwasanaeth yn gweithio ar ddatblygu cyfleoedd ffurfiol ac anffurfiol i ddefnyddio'r Gymraeg yn y Cwricwlwm newydd a dylai hyn esgor ar ddatblygiadau ym maes gwaith ieuenctid 8-18, yn seiliedig yn yr ysgolion – gan hefyd o bosib ymgorffori mewnbyn gan y Mentrau Iaith.</p>
<p>58 Yn unol ag argymhellion y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Glybiau Ieuenctid (Ionawr 2014) blaenoriaethu cynyddu darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg fel rhan o'r ymagwedd</p>	<p>Paratoi cytundeb drafft i'w drafod gyda darparwyr ieuenctid ar draws y sir. Cynnal gweithdy i ddarparwyr lleol mewn partneriaeth â Busnes Cymru</p>	

Argymhelliad	Cam gweithredu	
strategol newydd drwy gomisiynu rhai sefydliadau sy'n darparu gwasanaeth ieuencid agored trwy gyfrwng y Gymraeg.		
59 Bod y Cyngor Sir yn sicrhau bod gwersi nofio cyfrwng Cymraeg ar gael ym mhob canolfan hamdden ar draws Sir Gâr.		Mi fydd lefelau 1-3 ar gael yn Gymraeg a Saesneg ar wahân yng Nghanolffannau hamdden Llanelli, Rhydaman a Chaerfyrddin. Lefelau 4-7 sesiynau dwyieithog Lefelau 7-12 yn cael eu darparu trwy clybiau lleol ond y cyngor yn annog cynnig sesiynau dwyieithog
60 Bod y Cyngor Sir yn cynllunio ar gyfer darparu gwasanaethau hamdden eraill drwy gyfrwng y Gymraeg.	Yr Adran Hamdden i ystyried opsiynau posib ar gyfer sesiynau grŵp Cymraeg neu sesiynau lle gellir cyflwyno darpariaeth dwyieithog. Bydd ystyriaeth hefyd yn cael ei roi i gynnig sesiynau 1:1 (e.e. Sesiynau cyflwyno gampfa) cyfrwng Cymraeg.	Wedi cytuno ar gyfer gweithgareddau 1:1. Datblygu sesiynau dwyieithog fel cam nesaf ar gyfer sesiynau grŵp. Angen recriwtio a hyfforddi staff yn briodol. Gweithio i helpu lansio'r pecyn 'Y Gymraeg Amdani' efo Cyngor Chwaraeon Cymru i hybu defnydd yr iaith mewn clybiau chwaraeon ym mis Mai / Mehefin 2016. Gwnaed gwaith dwys gyda'r adran Hamdden gan ddarparu 3 sesiwn hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith yn ystod Mawrth 2016, oedd yn canolbwyntio ar ddatblygu darpariaeth Gymraeg fel rhan annatod o wasanaeth cwsmer da. Bydd dilyniant i'r hyfforddiant hwn yn digwydd yng Nghynhadledd flynyddol yr Adran yn yr Haf.
62 Bod y Cyngor Sir yn ymestyn y prosiect Pencampwyr Iaith lle mae'r Cyngor wedi adnabod Pencampwr Iaith i weithredu ym	Cynnal ymgyrch i recriwtio gwirfoddolwyr i fod yn Bencampwyr ymhlith staff y timau amrywiol.	Yn dilyn newidiadau staffio yn yr Adran Hamdden, penderfynwyd ailwampio'r Cynllun presennol a hefyd ymestyn y prosiect i'r

Argymhelliad	Cam gweithredu	
mhob Canolfan Hamdden ar draws y sir ar hyn o bryd, i gynnwys y parciau gwledig, y llyfrgelloedd a'r theatrau.		tимоedd parciau a diwylliant. Cynhelir ail gyfres o hyfforddiant gyda'r Adran i adnabod Pencampwyr newydd ac ail-hyfforddi yn ystod Mehefin 2016. Trafodwyd rôl y Pencampwyr o'r newydd, a phenderfynwyd eu galw'n 'Arweinwyr iaith'.
65Bod y Cyngor Sir yn cydweithio'n agosach gyda Theatr Genedlaethol Cymru er mwyn cynnig cyfleoedd cymunedol cyfrwng Cymraeg.	Cynnal trafodaethau rhwng Cyngor Sir a Theatr Genedlaethol i ystyried opsiynau posib.	Mae'r adran wedi bod yn trafod efo ThGC a cheisio dylanwadau ar ei rhaglen waith yn lleol.
66Bod y Cyngor Sir yn denu a hyrwyddo perfformiadau Cymraeg a dwyieithog o fewn eu theatrau sirol.	Sicrhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg wrth baratoi bob rhaglen dymhorol.	Mae hyn yn ddibynnol ar y perfformiadau a chwmnïau y byddwn yn denu i'r sir. Gwasanaeth cynnal mae'r sir yn cynnig, ond rydym yn ystyried gweithio efo'r sector i weld os oes modd datblygu cynyrchiadau lleol trwy'r gwasanaeth. Nid oes gan Theatrau Sir Gâr y strwythur staffio i ddatblygu sioeau a chynyrchiadau ac mi fyddai angen adnoddau ychwanegol i yrru'r uchelgais yma ymlaen.
68 Bod y Cyngor Sir yn hyrwyddo a marchnata'r Gymraeg i ddarpar rieni o fewn gweithlu'r Cyngor.	Hyrwyddo manteision dwyieithrwydd i ddarpar rieni gweithlu'r Cyngor.	
69 Bod Llywodraeth Cymru gyda chydweithrediad y Cyngor Sir yn sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn ganolog i gynlluniau tebyg i Dechrau'n Deg.		Yn anffodus, mae'r nifer o leoliadau sy'n darparu gwasanaeth cyfrwng Cymraeg wedi lleihau o 9 i 7, a hynny o ganlyniad i newid mewn amgylchiadau. Daeth un Cylch Meithrin i ben yn dilyn cyfnod ariannol anodd a gorffennodd y llall ei aelodaeth gyda'r Mudiad Meithrin, gan arwain ar ddarpariaeth dwyieithog.

Argymhelliad	Cam gweithredu	
		<p>Yn unol â'r Safonau Iaith newydd, rydym yn asesu pob un o'n meysydd gwasanaeth er mwyn ceisio gwella prosesau, ffurflenni, dogfennaeth ac ati i rieni er mwyn sicrhau ein bod yn cyrraedd eu hanghenion â'r Safonau.</p> <p>Mae'r Rheolwr Dechrau'n Deg yn paratoi cynllun gweithredu er mwyn asesu pob maes ac ymdrin ag unrhyw feysydd gwella.</p>
<p>70 Bod y Cyngor Sir, mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru, yn cynnal ymgyrch farchnata barhaol i hyrwyddo addysg Gymraeg gan esbonio manteision bod yn ddwyieithog i rieni a disgyblion (<i>hefyd wedi ei gynnwys yn argymhellion adran addysg</i>).</p>		

Atodiad 2: Cynllun Cyfathrebu 2015-16

Cefndir y Safonau

Mae Llywodraeth Cymru wedi pasio Deddf Iaith yn 2011 sy'n golygu bydd rhaid i gyrrff cyhoeddus baratoi a chydymffurfio â Safonau Iaith.

Mae Cyngor Sir Gâr, ynghyd â phob Awdurdod Lleol arall yng Nghymru, wedi derbyn ei Safonau Iaith Gymraeg terfynol erbyn hyn ac mae trefniadau ar waith er mwyn sicrhau fod y Cyngor yn cydymffurfio gyda'r gofynion newydd.

Bydd y Safonau Iaith yn disodli Cynllun Iaith Gymraeg cyfredol y Cyngor Sir ar 1 Ebrill 2016.

Mae'r Safonau yn arwain at roi hawl i siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywyd bob dydd a hynny'n cynnwys y gweithle. Gallwch ddarllen mwy am beth yw'r Safonau ar wefan Comisiynydd y Gymraeg www.comisiynyddygyymraeg.org

Mae'r Safonau yn ymwneud â'r 5 maes canlynol:

- Cyflenwi Gwasanaethau - sicrhau bod y Cyngor yn ymgysylltu gyda'n trigolion ac yn darparu gwasanaethau i gwsmeriaid yn Gymraeg. Mae hyn yn cynnwys sicrhau gwasanaeth Cymraeg wrth ohebu, galwadau ffôn, cyfarfodydd, hysbysiadau, ffurflenni, adroddiadau, gwefannau, gwasanaethau ar-lein, dyfarnu grantiau a chontractau.
- Llunio Polisi – Mae angen i'r Cyngor ystyried effeithiau unrhyw bolisi, (newydd neu wrth adolygu) ar yr iaith Gymraeg. Bydd rhaid ystyried ydy'r polisi yn darparu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ydy'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.
- Gweithredu – Mae angen i'r Cyngor ddatblygu polisi sy'n hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn fewnol. Mae nifer o'r safonau Gweithredu yn berthnasol i Adnoddau Dynol ac i'r Rheolwyr sy'n cynnwys cadw cofnod o ddewis iaith staff, asesu sgiliau iaith staff, asesu swyddi gwag am yr angen am sgiliau yn Gymraeg a darparu ffurflenni a gwybodaeth i staff yn Gymraeg.
- Hybu – sicrhau bod y Cyngor Sir yn llunio strategaeth 5 mlynedd sy'n esbonio sut y byddwn ni'n hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg ar draws y sir.
- Cadw cofnodion – sicrhau bod y Cyngor Sir yn cadw cofnod o gynnydd a wnaed yn erbyn pob safon.

Prif negeseuon y Cynllun Cyfathrebu

- Neges gyson a phositif o ran y newid o Gynllun iaith Gymraeg i Safonau iaith Gymraeg a'r newid yn nyletswyddau'r Cyngor
- Cynnig cyngor ac arweiniad drwy'r isadran Adfywio a Pholisi o ran gweithredu a sicrhau cydymffurfiaeth
- Hyrwyddo deunyddiau, offer a chanllawiau fydd o gymorth i'r staff wrth gydymffurfio
- Esbonio na fydd y Cynllun iaith Gymraeg yn bodoli ar ôl Mawrth 2016
- Esbonio'r elfennau rheoleiddio a'r newidiadau yn y berthynas gyda Chomisiynydd y Gymraeg, gan bod modd cosbi sefydliadau yn ariannol
- Neges o anogaeth a chefnogaeth i staff o ran y Gymraeg a defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle
- Tanlinellu bod y Gymraeg yn sgil yn y gweithle a bod cyfle i bawb i ddysgu a gwella eu sgiliau yn yr iaith
- Tanlinellu pwysigrwydd cynllunio'r Gymraeg o'r cychwyn cyntaf ym mhob achos – prosiectau, gweithio'n ddwyieithog, gwaith ymarferol megis fideos ayyb
- Hyrwyddo Gwasanaethau Cymraeg y Cyngor i'r cyhoedd (yn unol â Safon 81)

Prif Gyfryngau Cyfathrebu

- I gyfathrebu gyda chynghorwyr byddwn yn cyfathrebu'n bennaf drwy bwyllgorau'r Cyngor a'r pwyllgorau mewnol
- I gyfathrebu gyda'r cyhoedd, byddwn yn cyfathrebu drwy ein gwefan corfforaethol a thrwy amrywiaeth o ymgyrchoedd marchnata penodol
- I gyfathrebu gyda swyddogion y Cyngor, byddwn yn defnyddio cyfuniad o
 - Bwyllgorau mewnol
 - Y Gair ac e-Gair (cylchlythyr papur ac e-gylchlythyr i staff)
 - Y Fewnrwyd
 - Ebyst torfol (drwy system dotmailer)
 - Ymgyrchoedd marchnata penodol

Pwyllgorau'r Cyngor

Er mwyn cael cymeradwyaeth y Cyngor llawn ar y Safonau Iaith, cyflwynwyd yr Hysbysiadau Cydymffurfio i'r cyfarfodydd canlynol:

Cyfarfod	Amserlen
Gweithgor Cynllun Iaith Gymraeg	21 Hydref 2015
Panel Ymgynghorol yr Aelodau ar yr Iaith Gymraeg	Cyfarfod arbennig ar 16 Rhagfyr 2015
Tîm Rheoli Corfforaethol	3 Tachwedd 2015
Rhag Fwrdd Gweithredol	2 Tachwedd 2015
Fforwm Penaethiaid Gwasanaeth	Diweddariad rheolaidd ar gynnydd drwy'r Prif Weithredwr Cynorthwyol

Pwyllgorau mewnol

Adran y Prif Weithredwr	Tîm Rheoli Isadran Cwsmeriaid a Pholisi (Management Team - Customer Focus and Policy)
	Tîm Rheoli Isadran Rheoli Pobl (Management Team - People Management)
	Adran y Gyfraith
Addysg a Gwasanaethau Plant	Cyfarfod Tîm Rheoli Adrannol (Departmental Management Team meeting) Cyfarwyddwr Adran Addysg a Phenathiaid Gwasanaeth
	Cyfarfod Tîm Arweinyddiaeth Strategol (Strategic Leadership Team meeting) Cyfarwyddwr, Penaethiaid Gwasanaeth a Rheolwyr Trydydd Haen
Cymunedau	Cyfarfod Tîm Rheoli Adrannol (Departmental Management Team meeting)
	Gweithgor 'Mwy na Geiriau'
Yr Amgylchedd	Cyfarfod Tîm Rheoli Adrannol (Departmental Management Team meeting)

Cyfathrebu gyda'r Cyhoedd

Bydd llawer mwy o'r gwaith o gyfathrebu gyda'r cyhoedd am ein gwasanaethau cyfrwng Cymraeg yn digwydd yn 2015-16 wedi i'r Safonau ddod i rym ac wedi i ni ganolbwyntio ein hymdrechion ar gyfathrebu negeseuon uniongyrchol yn ymwneud a'r Safonau yn fewnol. Fodd bynnag, fe weithredwyd ymgyrch marchnata a redwyd drwy *Newyddion Sir Gar* yn ystod mis Mawrth, oedd

yn annog y cyhoedd i ddewis cyfathrebu yn Gymraeg gyda'r Cyngor ym mha bynnag gyfrwng y dymument. Yn ogystal, cafwyd trafodaethau cychwynnol ar amryw o ymgyrchoedd posibl ar gyfer 2016-17. Fe fydd y syniadau hyn yn ogystal â ffrwyth trafodaethau gyda'r llywodraeth am theorïau newid ymddygiad yn ffurfio Cynllun Cyfathrebu ar gyfer 2016-17.

Cyfathrebu gyda'r staff yn uniongyrchol

Amserlen	Thema / prif negeseuon	Prif gyfrwng
Medi 2015	Neges gyffredinol am y Safonau	Y Gair / e-Gair
Hydref 2015	Neges o ran yr hysbysiadau cydymffurfio ac annog adrannau i gysylltu â'r tîm Polisi a Phartneriaeth i drafod unrhyw ymholiadau	Digwyddiad ein Pobl i Rheolwyr (Theatr y Ffwrnes) – standin gwybodaeth a thafleuni gwybodaeth Y Gair / e-Gair
Tachwedd 2015	Atgyfnerthu'r neges o ran y newid o'r Cynllun Iaith Gymraeg i Safonau'r Gymraeg	Y Gair / e-Gair Cyfarfodydd isadran Adfywio a Pholisi
Rhagfyr 2015	Datganiad y Gymraeg – cyngor i staff ar osod datganiad am y Gymraeg a gwasanaethau Cymraeg mewn ffurflenni / dogfennau ac ati	Y Gair / e-Gair Cydweithio â'r Uned Gyfathrebu i hyrwyddo'r neges ymhlith cwsmeriaid gwaith dylunio / cyhoeddi Cyfarfodydd isadran Adfywio a Pholisi
Ionawr 2016	Neges E Gair Chwefror: Cyflwyno'r Safonau a Chanllaw 1 – Pam defnyddio'r Gymraeg'	Y Gair / e-Gair Y fewnwyd
Chwefror 2016	Neges am y Safonau yn neges fideo'r Arweinydd, y Cynghorydd Emlyn Dole Neges yn esbonio bod yr Awdit Sgiliau Iaith ar y ffordd a phwysigrwydd y wybodaeth wrth gynllunio'r gweithlu a hyfforddiant priodol i staff	Y Gair / e-Gair
Mawrth 2016	Neges 1(dotmailer) gan Cynghorydd Mair Stephens, Aelod Bwrdd Gweithredol yn tanlinellu pwysigrwydd y Safonau, yn tynnu sylw at y canllawiau a'r awdit sgiliau sydd ar y ffordd + cynnig cyngor a chefnogaeth y tîm Polisi a Phartneriaeth Neges 2 gan Cynghorydd Mair Stephens, '4	Neges i bawb sydd â chyswllt swyddfa Neges i bawb sydd â chyswllt swyddfa

	canllaw a Chwestiynau a ofynnir yn aml'	Y fewnrwyd
	Neges E Gair ac Y Gair Ebrill 'Cyfarch ar y ffôn'	Y Gair / e-Gair

Atodiad 3: Cwynion a dderbyniwyd 2015/16

Isod mae rhestr o'r cwynion a dderbyniwyd yn ystod 2015/16 ynghyd â chrynodeb o'r gweithredu yn dilyn eu derbyn.

Ymdriniwyd â'r cwynion yn unol â Gweithdrefn Gwynion y cyngor.

	Cwyn	Ymateb a gweithredu
1.	Cwyn ynghylch darpariaeth cyfrwng Cymraeg Gerddi Botaneg Cenedlaethol Cymru a'r gofynion a osodir yng nghytundeb ariannol y cyngor gyda hwy	<ul style="list-style-type: none"> • Diweddarwyd cytundeb ariannol y cyngor gyda'r Gerddi a cynhaliwyd cyfarfod gyda'r Cyfarwyddwr, y Rheolwr Marchnata ac Aelod o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr i drafod amodau ieithyddol • Darparwyd cyngor ymarferol i'r Gerddi ar feysydd allweddol megis arwyddion a digwyddiadau a drefnir gan gyrff trydydd parti
2.	Cwyn ynghylch methiant honedig i ddarparu gwasanaeth cyfrwng Cymraeg ym maes budd-daliadau tai.	<ul style="list-style-type: none"> • Cysylltwyd â'r tîm Budd-daliadau Tai i ymchwilio'r honiad yn fanwl • Mae'r Tîm Budd-daliadau a Threth y Cyngor yn cadw cofnod o ddewis ieithyddol pob un o'n cleientiaid, a hynny drwy system a ddatblygwyd i ni gan gwmni Northgate • Nid oedd cais am ohebiaeth cyfrwng Cymraeg wedi ei dderbyn gan yr unigolyn ond estynnwyd y cyfle iddo nodi'r dewis hynny • Ymchwiliwyd i'r ohebiaeth a'r cofnodion o ran ymdrin â'r unigolyn, ac roedd wedi dewis gohebu'n Saesneg ar bob achlysur, gan gynnwys galwadau ffôn gyda swyddogion dwyieithog • Mae pob aelod o staff sy'n gweithio yn y dderbynfa yn Nhŷ Elwyn, Llanelli (bellach yn yr Hwb, Llanelli) yn gwbl ddwyieithog ac yn llwyr ymwybodol o'r cyfrifoldeb i ddarparu gwasanaeth yn unol â dewis laith ein cleientiaid
3.	Cwyn ynghylch llythyr a ddanfonwyd at unigolyn gan Gronfa Bensiwn Dyfed yn uniaith Saesneg	<ul style="list-style-type: none"> • Cysylltwyd â thîm y Gronfa i ymchwilio i hyn. • Cadarnhawyd bod yr unigolyn wedi gohebu yn Saesneg gyda'r Gronfa ac felly nodwyd Saesneg fel dewis laith • Diweddarwyd y cofnod hynny fel bod yr unigolyn yn derbyn gohebiaeth dwyieithog at y dyfodol

4.	Cwyn ynghylch diffyg darpariaeth gwersi nofio cyfrwng Cymraeg yng Nghanolfan Hamdden Caerfyrddin	<ul style="list-style-type: none"> • Cysylltwyd â Rheolwr y Ganolfan Hamdden yng Nghaerfyrddin i drafod hyn • Esboniwyd i'r unigolyn bod nifer o'r hyfforddwyr cyfrwng Cymraeg wedi gadael am swyddi eraill a bod proses recriwtio ar waith • Cadarnhawyd y byddai darpariaeth ddwyieithog ar gael at y dyfodol
5.	Cwyn ynghylch diffyg darpariaeth cyfrwng Cymraeg ym maes Hyfforddiant i Lywodraethwyr	<ul style="list-style-type: none"> • Cysylltwyd â'r Uned Derbyniadau a Llywodraethwyr Ysgolion i drafod hyn. • Esboniwyd bod darpariaeth y cwrs penodol o ran data wedi ei rannu gyda Chyngor Sir Benfro, a bod y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg agosaf at yr unigolyn ar gael yn Sir Benfro • Nodwyd y bydd y cyngor yn cynnal adolygiad o'r hyfforddiant sydd ar gael i Lywodraethwyr, gan wahodd sylwadau gan gyrrff Llywodraethu unigol ar y ddarpariaeth
6.	Cwyn ynghylch arwyddion cau ffyrdd dros dro yn ystod dathlu Gŵyl Ddewi Tref Caerfyrddin	<ul style="list-style-type: none"> • Cysylltwyd â'r Uned Ffyrdd er mwyn trafod hyn • Cadarnhawyd bod oedi o ran yr arwyddion cyfrwng Cymraeg ac ymddiheurwyd am hynny • Trafodwyd y broses o gau ffyrdd (dros dro) gyda'r uned a cytunwyd ar gamau penodol er mwyn sicrhau na fydd hyn yn digwydd eto
7.	Cwyn ynghylch hysbysebion swyddi Cyfarwyddwyr y Cyngor a arweiniodd at Ymchwiliad gan Gomisiynydd y Gymraeg o dan Adran 17 Deddf yr Iaith Gymraeg	<ul style="list-style-type: none"> • Cysylltwyd â'r isadran Adnoddau Dynol a'r tîm Cyfathrebu i drafod hyn • Esboniwyd bod y cyngor wedi cynnwys y manylder o ran lefel ieithyddol y swydd yn y swydd ddisgrifiad yn hytrach na'r hysbyseb ar gyfer y swyddi • Derbyniwyd cadarnhad gan Gomisiynydd y Gymraeg bod y cyngor wedi methu â chydymffurfio gyda 3 cymal o'r Cynllun Iaith ynghylch recriwtio • Mae'r cyngor wedi derbyn yr argymhellion yn dilyn hynny, gan sicrhau newidiadau wrth gyflwyno'r Strategaeth Sgiliau Iaith newydd
8.	Cwyn ynghylch cyflwyno sylwadau cyfrwng Cymraeg ar wefan Lleol-i, pan dderbyniwyd ymateb yn Saesneg	<ul style="list-style-type: none"> • Ymddiheurwyd i'r unigolyn am yr ymateb Saesneg ac ail ddanfonwyd y neges yn Gymraeg • Atgoffwyd yr adran bod angen ymateb i ohebiaeth cyfrwng Cymraeg, yn Gymraeg
9.	Cwyn ynghylch safon y Gymraeg ar	<ul style="list-style-type: none"> • Cysylltwyd â'r isadran Hamdden i drafod

	daflenni Hamdden 'Actif' a gylchredwyd i Gylchoedd Meithrin a Meithrinfeydd	<p>hyn.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymddiheurwyd am y gwallau yn y daflen ac fe baratowyd fersiwn newydd
10.	Cwyn ynghylch y Cynllun Cenedlaethol i Atgyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff a gylchredwyd yn y sir	<ul style="list-style-type: none"> • Cysylltwyd â'r isadran Hamdden i drafod hyn. • Cadarnhawyd bod fersiwn Cymraeg o'r llythyr ar gael ac ymddiheurwyd am y camgymeriad

Atodiad 4: Hyfforddiant a ddarparwyd 2015-16

Modiwl Ymwybyddiaeth Iaith – pecyn e-ddysgu	50
Croeso i'r Gymraeg – Lefel 1 Gweithdy hanner diwrnod i staff i gyrraedd lefel 1	40
Cwrs arbenigol i Ofalwyr sy'n gweithio gyda pobl hŷn	32
Cwrs Sgiliau Mentora	14
Mynediad 1	12
Mynediad 2	5
Sylfaen 1	6
Sylfaen 2	5
Canolradd 1	3
Canolradd 2	2
Gwella eich Cymraeg: Llafar A	9
Gwella eich Cymraeg: Llafar B	10
Gwella eich Cymraeg: Sgiliau Ysgrifennu	3
Cymraeg i Reolwyr Cwrs allanol drwy Gwmni Iaith	5
Ymwybyddiaeth Iaith – wedi ei deilwra'n benodol at y tîm 'Llinell Ofal'	7
Ymwybyddiaeth Iaith – wedi ei deilwra'n benodol at yr isadran Hamdden a Diwylliant	40
CYFANSWM Y DYSGWYR	243

Atodiad 5: Awdit Sgiliau Iaith

Cynhaliwyd yr awdit sgiliau iaith ymhlith y staff sydd â chyswllt swyddfa yn gyntaf. Dyma'r canlyniadau cychwynol o ran y Gymraeg:

Dim Sgiliau Llafar	350	Dim Sgiliau Ysgrifennu	625
Lefel 1 Llafar	729	Lefel 1 Ysgrifennu	706
Lefel 2 Llafar	410	Lefel 2 Ysgrifennu	393
Lefel 3 Llafar	311	Lefel 3 Ysgrifennu	344
Lefel 4 Llafar	361	Lefel 4 Ysgrifennu	297
Lefel 5 Llafar	462	Lefel 5 Ysgrifennu	257